PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# y tincer

PRIS 75c | Rhif 352 | HYDREF 2012

Pencampwyr t11

24 tudalen



Gwobr i filwr t15



Gwaith ffordd Penrhyn-coch t8





Llun: David Rawcliffe, Propaganda.

## Clybiwr y flwyddyn

Cyflwynwyd gwobr Clybiwr y Flwyddyn i Aneurin Thomas, Penrhyn-coch, yng nghinio mawreddog Gwobrau Cymdeithas Pêl-droed Cymru yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru yng Nghaerdydd nos Lun 8 Hydref. Fe wnaeth y cefnwr canol poblogaidd yma dros 400 ymddangosiad i Aberystwyth. Yn y llun gwelir Aneurin yn derbyn y wobr oddi wrth gapten Cymru - Ashley Williams a Jonathan Bridgeman o HSBC.

## Rhubanau er cof am April

A'r Tincer ar fynd i'r wasg nos Lun 15 Hydref mae hi yn bythefnos ers diflaniad April Jones ym Machynlleth. Trwy Facebook a Twitter fe ledodd y newyddion am ei diflaniad yn sydyn a gwelwyd nifer o'r ardal hon ymhlith y canoedd fu'n rhan o'r chwilio, cynorthwyo i chwilio a chynnal y teulu. Bu Eglwys Sant Ioan, Penrhyn-coch ar agor i unrhyw un oedd am droi i mewn.

parhad ar dudalen 3




Llun: Iestyn Hughes

# y tincer

Sefydlwyd Medi 1977
Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion

ISSN 0963-925X



**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | Rhoshelyg@btinternet.com

**TEIPYDD – Iona Bailey**

**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎ 832980

**CADEIRYDD – Elin Hefin**
Ynyswen, Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871334

**IS-GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION Y TINCER – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228

**YSGRIFENNYDD – Anwen Pierce**
46 Bryncastell, Bow Street ☎ 828337

**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk

**HYSBYSEBION – Rhodri Morgan**
Maes Mieri, Llandre, ☎ 828 729
rhodrimoc@yahoo.co.uk

**LLUNIAU – Peter Henley**
Dôleglur, Bow Street ☎ 828173

**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**

**TREFNYDD GWERTHIANT – Bryn Roberts**
4 Brynmeillion, Bow Street ☎ 828136

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691

**Y BORTH – Elin Hefin**
Ynyswen, Stryd Fawr
elin.john@yahoo.co.uk

**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Lynn Phillips**, 1 Cae'r Odyn ☎ 820908
**Anwen Pierce**, 46 Bryncastell ☎ 828 337

**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**
**Mrs Aeronwy Lewis**
Rheidol Banc, Blaengeuffordd ☎ 880 645

**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dai Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch
☎ 623 660

**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** - Dôlwerdd ☎ 871 615

**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** - Seintwar ☎ 828 309

**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228

**LLANDRE**
**Mrs Mair England**
Pantyglyn, Llandre ☎ 828693

**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** - 7 Tan-y-berth ☎ 820642

**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


# dyddiadur

## Rhifyn Tachwedd

**Deunydd i law: Tachwedd 2 | Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 15**

**HYDREF 19** Nos Wener Bingo yn Neuadd yr Eglwys Penrhyn-coch am 7.00

**HYDREF 19** Nos Wener 'Dwyn i Gof' – Y Parchg W.J. Edwards Noson agoriadol Cymdeithas Lenyddol y Garn yn Festri'r Garn am 7.30

**HYDREF 19** Nos Wener Cyngerdd Cyhoeddi Gŵyl Gerdd Dant Ystrad Fflur, Pontrhydfendigaid 2013 gydag ysgolion cynradd y fro, Ysgol Uwchradd Tregaron ac Adrannau'r Urdd Aberystwyth a Llanbed. Llywydd: Dr Ann Rhys Tocynnau (wrth y drws) Oedolion: £4, plant am ddim

**HYDREF 21-22** Nosweithiau Sul a Llun Cwmni Morlan yn perfformio'r ddrama Y Canpunt (Kate Roberts) ym Morlan, Aberystwyth am 7.30 ar nos Sul, 21 Hydref ac am 7.00 nos Lun, 22 Hydref. Ar y nos Sul bydd Francesca Rhydderch a Katie Gramich yn trafod gwaith Kate Roberts cyn y perfformad. Dim ond y ddrama fydd i'w gweld ar y nos Lun. Tâl mynediad: £3 (ar y nos Sul), £2.50 (ar y nos Lun) – y pris yn cynnwys paned.

**HYDREF 26** Nos Wener Noson goffi yn Neuadd Rhydypennau am 7.00. Adloniant gan blant Ysgol Rhydypennau

**HYDREF 26-27** Dyddiau Gwener a Sadwrn Eisteddfod Talaith a Chadair Powys, Bro Ddyfi 2012 ym Machynlleth

**HYDREF 27** Nos Sadwrn Troi y clociau yn ôl

**TACHWEDD 2** Nos Wener Taith Dathlu 50 mlynedd Dafydd Iwan yn Llety Parc, Aberystwyth gyda Lisa Angahrad Healy am 8.00 Tocynnau £10 o Llety Parc.

**TACHWEDD 5** Nos Lun Cwmni'r Frân Wen yn cyflwyno Hawl! yn Y Plas Machynlleth am 7.30 Tocynnau £7 / £5. Ffôn: 01248 715048 neu ar-lein WWW.WEGOTTICKETS.COM/franwen

**TACHWEDD 7** Prynhawn Mercher Gŵr gwadd: Mr Gerald Morgan, Aberystwyth Cymdeithas Chwiorydd y Garn am 2.30 o'r gloch

**TACHWEDD 7** Nos Fercher Bara Caws yn perfformio 'Un bach arall eto' (Twm Miall) yng Nghlwb Pêl-droed Aberystwyth am 7.30. Tocynnau: Fal Jenkins 832 560

**TACHWEDD 9** Nos Wener Cwis y Neuadd yn Nhafarn Rhydypennau am 7.30 .

**TACHWEDD 9-10** Nos Wener (Dylan Iorwerth yn holi'r Arglwydd Elystan Morgan yn sgîl cyhoeddi ei hunangofiant a dydd Sadwrn (4 sesiwn gydag awduron) Gŵyl Lyfrau Morlan Tocynnau ar gael o Morlan - mwy o fanylion ar www.morlan.org.uk

**TACHWEDD 14** Nos Fercher Y Parchg Andy Herrick yn sôn am Zambia Cymdeithas Gymraeg y Borth am 7.30 yn Neuadd y Borth.

**TACHWEDD 15** Dydd Iau Etholiad Comisiynydd yr Heddlu

**TACHWEDD 16** Nos Wener 'Tro ar Waith' – Sian (Caergywydd), Carwyn a Seiriol. Cymdeithas Lenyddol y Garn yn Festrir Garn am 7.30

**TACHWEDD 17** Nos Sadwrn Bwyd, adloniant ac ocsiwn yng Ngwesty'r Marine, Aberystwyth am 7.30.Pris tocyn: £20 Ar gael gan Trefor Puw 01974 272 214 neu Olygydd y Tincer Yr elw at Ŵyl Cerdd Dant Ystrad Fflur 2013

### Y Tincer ar dâp

Mae modd cael y Tincer ar gaset ar gyfer y rhai sydd â'r golwg yn pallu.
Cysylltwch â Rhiain Lewis, Glynllifon, 17 Heol Alun, Aberystwyth, SY23 3BB (☎ 612 984)

### Camera'r Tincer

Cofiwch am gamera digidol y Tincer – mae ar gael i unrhyw un yn yr ardal fydd am ei fenthyg i dynnu llun ar gyfer y papur o gyngerdd, cinio neu ddigwyddiad a gynhelir o fewn ein dalgylch. Fe'i cedwir gan Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro, Bow Street (☎ 828102). Os byddwch am gael llun eich noson goffi yn Y Tincer defnyddiwch y camera.

Cyhoeddir y Tincer yn fisol o Fedi i Mehefin gan Bwyllgor y Tincer. Argreffir gan y Lolfa, Tal-y-bont. Nid yw'r Pwyllgor o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn. Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyr neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd.

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

Annwyl ddarllenwyr,

**A oes gennych chi, eich ffrindiau neu eich teulu atgofion o...**

- gyfnod o dywydd eithafol yng Nghymru?
- aeaf caled neu fwyn?
- haf cynnes, gwlyb neu boeth?
- gynhaeaf siomedig neu ffrwythlon?
- fellt a tharanau bythgofiadwy?
- lifogydd, sychder, storm neu gorwynt?
- Eisteddfod neu Sioe Frenhinol gwlyb neu grasboeth?

**Os mai OES yw eich ateb, cyfrannwch hwy i brosiect tywydd eithafol newydd i Gymru. Medrwch wneud hyn ar: http://eira.llgc.org.uk**
**neu drwy cysylltu â Cerys Jones, CAWCS, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3HH, 01970 631028, cerys.jones@cymru.ac.uk**

## Meddwl am April

Bu teulu Garej Tŷ Mawr, Penrhyn-coch, yn brysur yn cydlynu casgliadau bwyd ac arian a chyfranwyd gan rai oedd yn arfer byw yn yr ardal a gan aelod o staff BP arferai ymweld a'r ardal. Gwerthfawrogwyd hyn oll gan drigolion Machynlleth.

Dywed Y Parchg Judith Morris yn rhifyn Hydref o'r Heuwr: 'Ein gweddi yw y bydd Duw yn ei bresenoldeb yn cynnal breichiau ei mam a'i thad, ei brawd a'i chwaer a gweddill y teulu yn eu hunllef dirdynnol ac yn amgylchynu April, pa le bynnag y mae, â chynhesrwydd a thynerwch ei gariad dwyfol'.







## 20 MLYNEDD YN OL

Pwyllgor Cymuned Melindwr a drefnodd i gasglu y cyfanswm o £5,177.24 yn ardal Capel Bangor, Cwmrheidol a Goginan, tuag at Eisteddfod Genedlaethol Aberystwyth 1992.

Mr Gwynfor Jones, Cadeirydd, Mrs Heulwen Lewis, Trysorydd, Mrs Iona Jones, ysgrifennydd, Mrs Beti Daniel, Mrs Delyth Griffiths, Mrs Lyn Jenkins, Mrs Enid Jones, Mrs Aeronwy Lewis, Mrs Gwen Morgan, Mr Geraint Davies, Mr Emlyn Griffiths a Mr Gareth Jones. Roedd Mr Dewi Davies, Mr Maldwyn James, a Mr Tom Jones, yr Is-Gadeirydd, yn absennol o'r llun.
Llun: Anthony Pugh. (O'r Tincer Hydref 1992)

**Ymunwch â Grŵp Facebook Ytincer**

### CYFEILLION Y TINCER

Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer Mis Medi 2012

£25 (Rhif 112) Nerys Hughes, Bod Hywel, Bow Street
£15 (Rhif 192) Bill Powell, Cartref, Comins-coch
£10 (Rhif 30) Dafydd Shepherd, 1 Dôl Helyg, Penrhyn-coch

Fe dynnwyd y rhifau buddugol gan aelodau o'r tîm dosbarthu yn festri Bethlehem, Llandre pnawn Mercher Medi 19.

Cysylltwch â'r Trefnydd, Bethan Bebb, Penpistyll, Cwmbrwyno. Goginan, os am fod yn aelod.
Am restr o Gyfeillion y Tincer gweler http://www.trefeurig.org/uploads/cyfeilliontincer2009.pdf

y tincer

GWASANAETH GARDDIO ROBERT GRIFFITHS
Am bob math o waith garddio ffoniwch
(01970) 820924

**Telerau hysbysebu**
Tudalen lawn (35 x 22 cm) £100
Hanner tudalen £60
Chwarter tudalen £30
neu hysbyseb bach ca. 5 x 8 cm £6 y rhifyn - £40 y flwyddyn (10 rhifyn - misol o Fedi i Fehefin); mwy na 6 mis + £4 y mis , llai na 6 mis - £6 y mis. Cysyllter â Rhodri Morgan os am hysbysebu.

# Y BORTH

### Ysbyty

Treuliodd Glynne Evans, Moorlands, gyfnod yn yr ysbyty. Dymuniadau gorau am wellhad buan!

### Cyrraedd y Coleg

Llongyfarchiadau i Rhiannon Hincks, ar ei chanlyniadau lefel A a dymuniadau gorau iddi ar ei chwrs Cymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd.

### Cymdeithas Gymraeg Y Borth

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tymor yn Neuadd Y Borth nos Fercher, 10 Hydref o dan Lywyddiaeth Margaret Griffiths. Diolchodd Margaret i John Hughes am ei waith fel Llywydd ar y flwyddyn cynt ac etholwyd y Parchg Cecilia Charles yn Is-Lywydd.

Gan mai y Llywydd cyfredol sy'n gyfrifol am adloniant noson gynta'r tymor, roedd Margaret wedi gwahodd ei chefnder, Illtud Griffiths - y deintydd, i ddod atom, a chawson noson tu hwnt o ddiddorol yn gwrando ar bob math o hanes dannedd a'r gwahanol driniaethau sydd wedi bodoli ers canrifoedd. Diolchwyd yn gynnes i Illtud gan Elwyn Pryse. Noson wych i ail gychwyn y tymor!

Edrychwn ymlaen yn awr at gael clywed sut mae y Parchg. Andy Herrick yn gwneud gwahaniaeth bach mewn cornel bach yn Zambia y mis nesaf - sef, nos Fercher, 14 Tachwedd, am 7.30 yn Neuadd y Borth.

### Genedigaeth a gig!

Llongyfarchiadau i Carwyn Tywyn a Kathryn Jones, Porth Tywyn, ar enedigaeth mab - Gwyn Carannog Tywyn ar Awst 10fed. Brawd bach i Heledd a ŵyr i Eurgain Rowlands, Hafod Heli.

Gellir gweld a chlywed trac cyntaf gig Carwyn yn y Llyfrgell Genedlaethol nôl ym mis Mehefin ar http://www.youtube.com/watch?v=EbkSfjolZXQ

Yr alaw gyntaf yw "Alaw Gwyn", a gyfansoddwyd i'r mab. Yna clywir "Criw Porth Tywyn", sianti fôr gyfoes yn seiliedig ym Mhorth Tywyn a wedyn yr alaw draddodiadol, Ilffracwm.



Llongyfarchiadau i John Hefin ar ennill gwobr arbennig BAFTA

## Cyflwyniad yr Athro Emeritws Elan Closs Stephens yn seremoni BAFTA yng Nghanolfan y Mileniwm wrth gyflwyno gwobr arbennig am gyfraniad rhagorol i ddrama yng Nghymru i John Hefin.

Foneddigion a Boneddigesau BAFTA. Dyma'n cyfle ni i ganu clod John Hefin, gwneuthurwr ffilm a chymwynaswr mawr y byd ffilm yng Nghymru. Gŵr ag ysbryd haelionnus gyda chryfder ac optimistiaeth yn ei greadigrwydd. Yfodd John yn ddwfn o ffilmiau Ffelini, Bergman, Truffaut a'r Don Newydd Ffrengig a gofyn iddo'i hun 'Pam na ddylen ni yng Nghymru greu diwylliant sy'n peri i ffilm flodeuo?" Roedd teulu John yn rhan o fudiad amatur y theatr yng Ngheredigion, ac fe gefnogodd Nora Isaac ei dalent yn y Drindod. Cododd i fod yn bennaeth Drama, trwy gefnogi a chael ei gefnogi gan dalentau mawr megis Gwenlyn Parry, Rhydderch Jones a Will Jones. Datblygodd yr adran i fod yn bŵerdy i'r telynegol a digri. Arloesodd yr Opera Sebon hira yn hanes teledu y Deyrnas Unedig- Pobol y Cwm. Roedd y cast yn un cryf—Gillan Elisa, Charles Williams a Rachel Thomos, a chyda llaw, gwahoddwyd ef llynedd i drafod Opera Sebon yn Iran. Anodd dychmygu ei sefydlu gyda'r Deri Arms yn ganolbwynt!

Roedd y 70au a'r 80au yn gyfnod euraidd. Creodd ddelweddau a pherfformadau sy'n parhau yn fythol wyrdd. Pwy all anghofio 'Grand Slam' gan gynnwys llygaid ac aeliau yr anfarwol Huw Griffith? Charles Williams fel Mr. Lolipop M.A. - un o'i berfformiadau gorau. Hefyd ffilmiau gwleidyddol fel 'Penyberth' (cyfarwyddwr Perer Edwards) a phortread gwych Owen Garmon fel Saunders Lewis. Yna, y 'Mimosa Boys' am helynt y Syr Gallahad a Bluff Cove heb sôn am y 9 awr o 'The Life and Times of David Lloyd George'? Deg ar hugain o flynyddoedd yn ddiweddarach, gallaf gofio'n glir y briodas ddewr o ddelwedd a cherddoriaeth 'Chi Mae'- cerddoriaeth gyda llaw a arweiniodd at Ddisg Aur.

Ond doedd hyn ddim yn ddigon ac aeth at i wireddu'r freuddwyd a'r weledigaeth y medrai'r wlad fach hon fod yn rhan o fyd rhyngwladol. Sefydlwyd Ffilm Cymru a datblygwyd 'O.M.' ac 'Un Nos Ola Leuad'; hefyd Archif Ffilm Cymru, sydd heddiw'n rhan anatod o Lyfrgell Genedaethol Cymru, yn ogystal â sicrhau llwyddiant llyfr Dave Berry *Wales and cinema- the first 100 years* (University of Wales Press, 1994). Cefnogodd gyfarwyddwyr ffilm ifanc i fynd i Goleg Ebeltoft yn Nenmarc fel bod modd iddynt gymysgu â thalentau ifanc, dawnus, Ewrob.

Ysbrydolodd don o fyfyrwyr ym Mhrifysgol Aberystwyth ac un o'r llyfrau ddilynodd perthynas John â'r Dr. Gwenno Ffrancon oedd ei doethuriaeth, 'Cyfaredd y Cysgodion'.Yn yr un modd y daeth ymchwil ar Ken Russell yn lyfr trwy berthynas Dr. Ben Halligan a John.

Mae gan John ddawn at gyfeillgarwch, gydag Elin, Cynhyrchydd proffesiynol a thiwtor Prifysgol, maent wedi creu cartref yn Ynyswen, lle ma na groeso, bwyd ardderchog, diod a thrafodaeth. Ac wrth edrych allan dros bae Ceredigion prin gwelid gwell machludoedd haul.

John mae llawer ohonom heno yn falch o dy alw'n 'ffrind'.

I ddiweddu, medda John ar angerdd brin, nid yn unig i fod yn wneuthurwr ffilm, ond i greu diwylliant yng Nghymru sy'n rhoi'r un parch a bri ag sydd eisoes i eiriau.

John, ry'n ni'n dy anrhydeddu di heno fel un sy'n wirioneddol hael ac yn gawr o unigolyn. Rhamantydd pan oedd angen breuddwydion arnom. Ry'n ni'n gwybod ein bod yn ddyledus i ti, ac mae'r ddyled yn un fawr. Dewch i ni gyd ad dalu y ddyled, trwy gefnogi a meithrin y gorau o'r byd teledu a ffilm yn y blynyddoedd o'n blaen.

# LLANDRE

## Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Joe a Sandie Hill o Gaerdydd ar enedigaeth Ifan Shaun ar 21ain Medi (pen blwydd ei dad hefyd!) Mae'n ŵyr i Len Lewis ac Anne Stewart, Lôn Glanfrêd, ac hefyd i Greg a Lorraine Hill, Maeshenllan, yr ieuangaf o bump genhedlaeth byw ar ochr ei mam a phedwar ar ochr ei dad.

## Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn a Rebecca Ricketts, Alderley, Lôn Glanfred, a'r teulu ar golli Tom, gŵr, tad a thad-cu annwyl a fu farw mis diwethaf. Cynhaliwyd ei angladd yn Amlosgfa Aberystwyth ar Fedi 20fed.

## Gwobr Ffotograffiaeth

Llongyfarchiadau i Phil Jones, Maes y Glyn, ar ennill y categori Bywyd gwyllt Dinesig o'r Gwobrau Ffotograffiaeth Bywyd gwyllt Prydeinig am ei lun o'r drudwy yn clwydo oddi tan y Pier yn Aberystwyth.

## Llwyddiant

Pob lwc i Dafydd Owen, Rhif 1 Clos y Ceiliog, sydd yn cychwyn cwrs gradd Hanes ym Mhrifysgol St Andrews, Yr Alban. Hefyd ei chwaer, Delyth Owen, sydd wedi pasio ei phrawf gyrru yn ddiweddar.

## Gwellhad buan

Dymunwn wellhad buan i Ray Hughes, Penrhyn, Lôn Glanfred sydd yn Ysbyty Singleton.

## Treftadaeth Llandre

**Hydref 25** : Agweddau ar Hanes Cymru – Sion Jobbins. Cynhelir y cyfarfod yn Ysgoldy Bethlehem, Llandre gan gychwyn am 7.30 hy.

## Cyrraedd y Coleg

Llongyfarchiadau i Efa Mared Edwards, Penpompren, ar ei chanlyniadau lefel A a dymuniadau gorau iddi ar ei chwrs Cymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd.

## Merched y Wawr, Llanfihangel Genau'r-glyn

Ar ddechrau tymor newydd croesawyd pawb i Fethlehem, Llandre, nos Lun 17 Medi, i'r cyfarfod oedd dan lywyddiaeth Gwenda James. Anfonwyd cofion at gyfeillion fethodd fod yn bresennol oherwydd anhwylder a dymunwyd iddynt adferiad buan.

Bu'r haf a aeth heibio yn un bythgofiadwy i'n gwesteion cyntaf, Derfel Reynolds a Rhian Nelms. Mae Derfel yn un o fro'r *Tincer* a bu'n un o'r unigolion dethol y rheini a ddewiswyd i gario'r Ffagl Olympaidd ar ei thaith drwy Geredigion. Siaradodd am sut cafodd ei enwebu am ei waith gyda chwaraeon i'r anabl. Daeth a'r Ffagl i'r cyfarfod fel bod yr aelodau'n gallu ei gweld a chlywsom yr hanes sut cafodd y Ffagl ei dylunio a'i chynhyrchu. "Profiad unigryw, unwaith mewn bywyd" oedd profiad Olympaidd Rhian Elms hefyd. Mae Rhian yn ferch a'i gwreiddiau'n ddwfn yn ardal Dolau ond fel prifathrawes gynorthwyol Ysgol Llangynfelyn derbyniodd wahoddiad i blant hynaf yr Ysgol ddylunio baner i dîm Olympaidd Denmark ac i fynd a'r faner i'w chwifio i gyfarch y tîm i mewn i'r Stadiwm yn ystod seremoni agoriadol y gêmau Olympaidd. Os nad oedd hynny'n ddigon o wefr iddi, ymhen ychydig oriau wedi iddi ddod adref o'r seremoni agoriadol roedd Rhian yn ôl ar y trên i Lundain i dderbyn hyfforddiant, offer a dillad pwrpasol am iddi gael ei dewis i fod yn un o'r tywyswyr arbennig i'r Gêmau Olympaidd, sef y 'Gamesmakers'. Roedd Rhian wedi cadw popeth o'r offer dderbyniodd hi wrth wasanaethu yn y gêmau ac roedd stori i bob eitem, o'r bathodynnau adnabod i'r ambarél na chafwyd ei defnyddio, a'r dillad arbennig a lliwgar a wisgai. Rhoddwyd Rhian i weithio yn y brif Stadiwm Olympaidd ble cafodd gyfle i wylio ras unigryw Usain Bolt a chynorthwyo Dame Tanni Grey Thompson a'i theulu. Drwy'r lluniau a'r cofroddion oedd gyda Rhian i'w harddangos yn ogystal â'i brwdfrydedd yn adrodd ei hanes, roedd yn amlwg i bawb fod rhywbeth arbennig iawn wedi digwydd draw yn Llundain yn ystod haf 2012. Cyn mentro am adref gwahoddwyd pawb i aros am baned ac i sgwrsio 'mhellach gyda'n gwesteion. Diolch i Derfel a Rhian am ddod i rannu eu profiadau a ni ac i Eirian am gynorthwyo gyda'r offer technolegol.

## Dymuniadau gorau

Llongyfarchiadau i Ainhoa Dafis ar ei chanlyniadau lefel A a dymuniadau gorau iddi yn ninas Gijon yn Asturias yng ngogledd Sbaen lle mae ar flwyddyn allan cyn mynd i Brifysgol. Yn ystod yr haf cwblhaodd gwrs TESOL (dysgu Saesneg dramor) yn y Brifysgol ac fe ddechreuodd ar ei gwaith mewn ysgol iaith yn Gijon ar y 1af o Hydref.





## Sefydliad y Merched Genau'r-glyn

Ar ddydd Mercher Mehefin 13 ymwelwyd â Gwarchodfa Natur Ynys-hir tra oedd Springwatch yn recordio'r rhaglen ddiwethaf. Gwelsom y cyflwynwyr yn eu caban a chwrdd â rhai wrth gerdded trwy'r goedwig yn edmygu'r golygfeydd rhyfeddol. I orffen y noson mwynhawyd pryd o fwyd yn y Wildfowler.

Ar ddiwrnod heulog ym mis Gorffennaf aethom ar ein trip haf i Wersyll Carcharorion Rhyfel Henllan, ac yn enwedig i'r Eglwys y Galon Gysegredig. Roedd tua 1.500 o garcharorion yn byw yn y gwersyll adeg yr Ail Ryfel Byd, a bu llawer yn gweithio ar ffermydd o amgylch Geredigion. Rhoddwyd caniatâd i'r carcharorion droi un o'r cabanau yn eglwys Gatholig, os oeddynt yn fodlon gwneud y gwaith a chasglu defnydd eu hunain.

Buont yn ddyfeisgar iawn, a'r canlyniad yw capel bendigedig gyda ffresgo yn darlunio'r Swper Olaf. Gwnaed y paent o olew pysgod a chroen llysiau, mae'n edrych cystal heddiw a'r diwrnod y'i paentiwyd gan y diweddar Mario Ferlito.

I orffen y diwrnod cafwyd pryd o fwyd yng Nghlwb Golff Llanrhystud.

Clywsom ym mis Medi sut oedd gwyddoniaeth fforensig yn helpu'r heddlu i ddadansoddi trosedd cymhleth gan Dr Debra Croft. Pwysleisiodd y natur drylwyr o'r gwaith er mwyn atal llygru tystiolaeth. Daeth y noson i ben gyda'r aelodau yn cael torch allwedd o'i marc bys.

Yn ein cyfarfod mis Hydref daeth Mrs Celia Gardner atom i adrodd ei phrofiadau fel gwraig i filwr. Clywsom am symudiadau'r teulu, yn enwedig eu hamser yn Singapore. Cawsom ein diddanu gan ei atgofion o achlysuron cymdeithasol a rheolau llym y fyddin. Roedd yn agoriad llygad i fywyd hollol wahanol.

# PENRHYN-COCH

**Horeb**
**Gweler http://www.trefeurig.org/cymdeithasau-horeb.php**
*Hydref*
21 2.30 Oedfa bregethu Gweinidog
28 10.30 Oedfa bregethu Y Parchg Peter Thomas
*Tachwedd*
4 2.30 Oedfa gymun Gweinidog
11 9.30 Oedfa deuluol Gweinidog
D.S. Dechreuir ynghynt gan y bydd gwasanaeth am 11.00 wrth y Gofeb ar y Sgwâr Bydd plant y Clwb Sul yn cyflwyno eu bocsys sgidiau i Operation Christmas Child yn y gwasanaeth
18 2.30 Oedfa bregethu Y Parchg Peter Thomas
25 10.30 Oedfa bregethu Gweinidog
**Salem**
*Tachwedd*
4 2pm Y Parchedig Richard H Lewis, Cymundeb

### Cinio Cymunedol Penrhyn-coch

Bydd y Clwb yn cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys dyddiau Mercher 24 Hydref, 14 a 28 Tachwedd . Cysylltwch â Egryn Evans 828 987 am fwy o fanylion neu i fwcio eich cinio.

### Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Lowri ac Iwan Guy, Caerdydd ar enedigaeth mab - Wil - ar 23 Medi. Ŵyr arall i Non a Colin Evans, 'Refail Fach.

### Oedfa ddiolchgarwch

Cynhaliwyd oedfa ddiolchgarwch Eglwys Sant Ioan nos Fercher 26 Medi pan bregethwyd gan y Canon J. Haydn. Rowlands, Caerfyrddin. Mae'r Canon, sydd wedi ymddeol, yn frodor o Ynys Môn, ac yn gyn ficer Llandysul. Bu'n golygu papur wythnosol yr Eglwys yng Nghymru, *Y Llan*. Cyflwynwyd y casgliad o £116.10 i Gymorth Cristnogol

### Cylch Meithrin Trefeurig

Braf yw bod nôl yn Neuadd y Penrhyn ar ôl yr holl welliannau. Hoffwn ddiolch i Ysgol Penrhyn-coch am y croeso cynnes gawsom yn ystod y ddau dymor diwethaf, ac i'r Clwb Cwl am fod mor barod i rannu'r caban gyda ni. Diolch hefyd i Eglwys Sant Ioan am adael i ni ddefnyddio Neuadd yr Eglwys.

Hoffwn ddymuno pob lwc i Olivia, Leah a Lowri, sydd wedi symud lan o'r cylch i Ysgol Penrhyn-coch yn ddiweddar. Croeso i'r tri phlentyn newydd sydd wedi ymuno â ni y tymor yma, sef Lily-Ann, Zak a Liwsi.



Dyma lun rhai o blant y Cylch Meithrin yn mwynhau bod nôl yn y Neuadd.

### Hen fam-gu eto

Llongyfarchiadau i Mrs Margaret Griffiths, 13 Ger-y-llan, ar ddod yn hen fam-gu unwaith eto. Ganwyd mab bach - Dylan John Howells - i Gethin a Gemma yn Abertridwr.

### Cymdeithas y Penrhyn

Yng nghyfarfod Tachwedd Cymdeithas y Penrhyn ar Dachwedd 21 bydd Brian Davies yn sôn am ei lyfr newydda gyhoeddir yn ystod y mis.Yn *Salem Soldier* (Y Lolfa) ceir hanes cynhwysfawr o fywyd ei dad Elfed Davies (1919 - 2002) a fagwyd ym mhentref Salem. Bu i lawysgrifau Elfed gynnig disgrifiadau byw i'w fab o'i blentyndod yn Nhrefeurig a'i gyflogaeth yn Aberystwyth cyn yr Ail Ryfel Byd, ac yna ei gyfnod fel milwr ifanc, gan gynnwys ei wasanaeth yn ymgyrch gogledd Affrica cyn ei ryddhad/dadfyddiniad ym 1946.

Mae'r gyfrol yn gofnod pwysig a gwerthfawr o brofiadau person cyffredin o Geredigion adeg yr Ail Ryfel Byd, ac yn cynnwys nifer o ffotograffau gwreiddiol o'r milwr ifanc ym Mhrydain, yr Aifft a'r Eidal.

### Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau

Llongyfarchiadau i Alex Thorogood, Glan Ceulan, a raddiodd gydag anrhydedd Dosbarth Cyntaf mewn Bydwreigiaeth ym Mhrifysgol Abertawe. Dymuniadau gorau iddi ar ddechrau ei gyrfa fel bydwraig yn Ysbyty y Royal Berkshire yn Reading.

### Clwb Pêl-droed Penrhyn-coch
### What's occuring?

Mae cryn gyffro ymhlith cefnogwyr y clwb ar ôl clywed y byddant yn cwrdd ag un o glybiau enwocaf Cymru yn ail rownd Cwpan Cymru. Clwb Tref y Barri fydd yr ymwelwyr i Gae Baker ar Ddydd Sadwrn, 10 Tachwedd. Mewn gêm gyffrous iawn collodd y Penrhyn i Airbus UK 0-1 ar Nos Fawrth, 9 Hydref yng Nghwpan Cynghrair Uwch Gynghrair Cymru Cymru (Cwpan the Word). Gwahoddwyd Penrhyn i gystadlu yn y cwpwn hwn oherwydd iddynt orffen ym mhedwar uchaf Cynghrair Alliance Huws Gray yn 2011-12.



Brownies Penrhyn-coch yn casglu sbwriel o amgylch y parc a'r cae pêl-droed adeg wythnos Cadw Cymru'n Daclus.

### Oedfa Ddiolchgarwch

Aled Pickard, o Cymorth Cristnogol, oedd yn annerch yng Nghyfarfod Diolchgarwch Horeb nos Fercher Hydref 3ydd, Rhoddodd anerchiad pwrpasol a chafwyd eitemau gan Barti Merched y Capel a hyfforddwyd gan Mair Evans; offrymwyd gweddi gan Sue Hughes a'r organydd oedd Ceris Gruffudd. Harddwyd y capel gyda blodau diolch i Glenys Thomas, Mairwen Jones, Mona Edwards a Sandra Beechey. Cyflwynwyd y casgliad - £55 - i Gymorth Cristnogol.

### Cydymdeimlad


Cydymdeimlwn â Anwen Hopton, Ger-y-llan, a'r teulu ar farwolaeth tad a thad-cu - y Parchg Morris Jones Morris mewn damwain ffordd ger Dolgellau nos Sul 7 Hydref.

ac â Laura Bolt a'r teulu ar farwolaeth Victor Bolt, Ger-y-llan, ar Hydref 13 ym Mhlas Cwmcynfelin.

### Merched y Wawr

Nos Iau, 13eg o Fedi, fe ddaethom ynghyd i ddechrau tymor newydd. Fe gychwynnwyd y noson gyda Judith Morris, ein cyn Lywydd yn croesawu pawb a diolch am y gefnogaeth a gafodd gan bawb y tymor diwethaf. Yna aed ymlaen i drosglwyddo'r awenau i ddwylo'r swyddogion newydd am y tymor yma, sef Mair Evans: Llywydd; Sharon Jones: Ysgrifennydd ac Elsie Morgan, Trysorydd. Fe groesawodd Mair Evans hefyd bawb i'r cyfarfod, yn aelodau hen a newydd. Roedd tair aelod newydd a hyfryd oedd cael eu cwmni. Yna aed ymlaen gyda'r busnes arferol drwy fynd drwy'r ohebiaeth a dderbyniwyd. Hefyd fe longyfarchwyd y Parti Llefaru am y gamp o ennill y wobr gyntaf yn y Ffair Haf ym Machynlleth ym mis Mai, hefyd llongyfarch Glenys Morgan am ei rhan efo tîm MyW Ceredigion yn ennill yn Sioe Llanelwedd efo'i harddangosfa. Yna hefyd, Mairwen am ennill gwobr o wneud pennill gogyfer â un o gardiau Nadolig 2012 Merched y Wawr.

Ar ôl hyn fe groesawyd ein gwŷr gwadd, sef Derfel Reynolds a Rhian Delmes. Y ddau wedi dod i sôn am y gêmau Olympaidd. Fe gafwyd araith a lluniau gwych gan Derfel yn cario fflam Olympaidd drwy Llan-non. Yna fe soniodd Rhian am ei gwaith fel gofalwr pobl anabl yn ystod y Gêmau Olympaidd yn Llundain. Y ddau wedi dod ag eitemau yn ymwneud â'r gêmau i ddangos i ni. Fe gafwyd noson wych yn eu cwmni. Diolchwyd i'r ddau yn swyddogol gan Judith Morris. Diweddwyd y noson efo cwpanaid a sgwrs. Noson agoriadol i'w chofio.



Llun: Rhys Llwyd

Y Parchg Peter Thomas yn brysur baratoi ar gyfer Diwrnod i'r Brenin: ar Hydref 6 ar Faes Sioe Llanelwedd- fu'n ddiwrnod hynod lwyddiannus.

### Anrhydedd i Matthew

Cafodd milwr 21 oed o Benrhyn-coch a saethwyd yn ei ben wrth geisio amddiffyn cyd-filwr yn Afghanistan ei anrhydeddu gyda'r Groes Filwrol. Roedd Reifflwr Matthew Wilson, yn gwasanaethu gyda Marchfilwyr y Frenhines yn nhalaith Helmand ym mis Hydref y llynedd pan saethodd rhywun at y criw.

Roedd milwr wedi cael ei saethu yn ei goes pan redodd Mathew ato i rwystro y gŵr rhag saethu eto ond tarodd y gŵr eto gan daro helmed Mathew nes oedd yn anymwybodol. Y peth cyntaf mae Mathew yn ei gofio yw deffro gyda chur pen mawr. Yn wyrthiol, fe lwyddodd i godi ar ei draed a dianc. Yn ôl yr enwebiad swyddogol gafodd Mathew am y Groes Filwrol:

"Roedd dewrder Wilson, ei hunanfeddiant dan ymosodiad y gelyn a'i benderfyniad, ac yntau wedi bod yn llythrennol o fewn trwch blewyn o farwolaeth, yn ddim llai nag eithriadol. Lle byddai llawer wedi chwalu o dan bwysau, sioc neu ofn, fe gododd Wilson i wynebu'r her a brwydro'n ôl. Mae'r dyn ifanc yma yn esiampl wych o wrhydri amlwg sydd prin yn cael ei weld yn wyneb perygl o'r fath."

Mae Debbie, mam Mathew, ei chwaer Rosie, a'i lys-dad yn byw ym Maes Seilo ac yn edrych ymlaen i'w weld yn derbyn yr anrhydedd gan y Frenhines. Mae Matthew allan yng Ngogledd Iwerddon ar hyn o bryd.Yr wythnos ddiwethaf galwodd cyn faer Aberystwyth, Hywel T, Jones i Gyngor Tref Aberystwyth gyflwyno Rhyddid y dref i Matthew Wilson am ei ddewrder.

Mae ei gyn-brifathro, Alun John, yn ei gofio fel bachgen bywiog, oedd



### Gweithio yn Kuwait

Yn dilyn gwahoddiad i weithio dros wyliau'r haf yn un o sefydliadau adnabyddus AL Corniche yn ninas Kuwait, mae Lynne Hughes Ger-y-Llan/Caerdydd wedi derbyn swydd barhaol fel rheolwr hyfforddiant a ffitrwydd ieuenctid. Bydd hefyd yn gobeithio agor Ysgol Ddawns ei hun. Pob lwc iddi yn ei swydd newydd ac fe fydd yn rhywle newydd i Mervyn a Sue fynd ar wyliau! Bydd yn dechrau ei swydd newydd mis Tachwedd.





Llun: Tina Jones

Priodwyd Caryl Thomas, Llys Myrddin, a Paul Lawrence o Lanafan Fawr, Powys, ar 18fed Awst, yng Nghapel y Morfa, Aberystwyth. Treuliwyd eu mis mêl ym Mauritius ac maent wedi ymgartrefu ym Mhontprennau, Caerdydd.

yn ymddiddori ym mhopeth yn llawn brwdfrydedd. Mae'n falch iddo lwyddo i gael gyrfa lwyddiannus a llwyddo cystal.

### Allan yn Slovenia

Dymuniadau gorau i Lydia Adams, Glyn Helyg, aeth allan i Slovenia ddechrau Medi i weithio gyda Zvesh - Mudiad Undebau Cristnogol Slovenia. Mae'n byw yn y brifddinas, Ljubljana, yno am ddwy flynedd ac wrthi'n dysgu'r iaith.

### Brysiwch wella

Ni fu ein gohebydd, Mairwen Jones, yn dda yn ddiweddar - brysiwch wella Mairwen. Gwelwn eich colli yng ngweithgareddau'r pentref.

Cydymdeimlwn a Anwen Ger-y-llan, a Rachel ac Emlyn Mainwaring, Glan Ceulan ar farwolaeth tad a thad-cu - y Parchg Morris Jones Morris mewn damwain ffordd ger Dolgellau nos Sul 7 Hydref.

### Ffordd ar gau

Fel mae'n amlwg i bawb mae tipyn o waith yn digwydd ar hyn o bryd yn y pentref tra mae Dŵr Cymru yn adnewyddu pibelli dŵr ond nid yw hyn yn ddim o'i gymharu a'r hyn fydd yn digwydd yn y misoedd nesaf pan fydd dau ddarn gwahanol o'r ffordd ar gau yn gyfangwbl.

1 Y darn cyntaf - o'r mynediad i'r Cae



Luned Jones o Lanrug a Ceri John, Ger-y-llan, a briodwyd ar Fedi'r 1af yn Nant Gwynant. Dymuniadau gorau i'r ddau.

Chwarae hyd at heibio'r Bwthyn ynghanol y pentref. Bydd hwn ar gau yn ddyddiol rhwng 9 y bore a 3.30 y prynhawn rhwng 22 Hydref a 9 Tachwedd.

2 Darn o wrth ymyl tro Glan Seilo (ger Capel Horeb) i fyny hyd at Brynhyfryd (y gyffordd i Salem). Bydd hwn ar gau yn ddyddiol rhwng 9 y bore a 3.30 y prynhawn rhwng 9 Tachwedd a 11 Ionawr 2013.

Ar wefan y Cyngor Sir mae'n dangos y ffordd y bydd yn rhaid teithio i gyrraedd rhan uchaf y pentref - sy'n siwrne o 9½ milltir trwy Gwmerfin.

Tra bydd hyn yn digwydd efallai y bydd toriad byr yn nghyflenwad dŵr rhai tai- na fydd yn para mwy na hanner awr ond rhoddir rhybudd o 48 awr am hyn.
Am fwy o fanylion gweler http://www.ceredigion.gov.uk/index.cfm?articleid=16084

## MADOG / DEWI / CEFN-LLWYD

**Oedfaon Madog**
2.00
*Hydref*
21 Bugail
28 J. E. Wynne Davies
*Tachwedd*
4 Bugail
11 Adrian Williams
18 Bugail
25 Arwyn Pierce

### Gwellhad

Dymuniadau gorau am wellhad buan i Mrs Nan Hughes, Gellinebwen, sydd yn Ysbyty Bron-glais, ar ôl cael ei thrawio'n wael yn sydyn. Gobeithio y byddwch yn teimlo'n well yn fuan.

### Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Erwyd Howells, Tŷ Capel, ar ddod yn Dad-cu am y trydydd tro. Ganwyd mab bach i Gethin a Gemma yn Abertridwr, a'i enw yw Dylan John Howells.

### Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Hana Meredydd, Maesawel, Cefn-llwyd, ar ei llwyddiant yn yr arholiadau TGAU.

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Margaret Garnett a'r plant Susan a David, Lovesgrove House, ar farwolaeth yr Athro John Clark Garnett - cyn Athro Gwleidyddiaeth Rhyngwladol a Dirprwy Brifathro Prifysgol Cymru, Aberystwyth, yn dawel yn ei gartref ar Hydref 9.

## Swyddfa'r Bost yn ymddiheuro!

Yn ôl yr arfer postiwyd copïau tanysgrifiad y Tincer allan gyda'r cludiant cywir - £1.10 - ond rhywle ar eu taith fe lynwyd sticeri arnynt i ddynodi nad oedd y pris cywir wedi ei dalu.

Golygodd hyn fod rhaid i bron pob tanysgrifwr gael cais i dalu £2.10 cyn derbyn eu copi - sef £1.10 am gludiant diffygiol a £1 am ffi drafod. Ar ôl i'n trysorydd gwyno wrth y Post Brenhinol fe fu iddyn nhw gyfaddef mai eu bai nhw oedd hyn ac addo gyrru llythyr yn ymddiheuro, gydag iawndal o stampiau gwerth £3.60, i bob un o'r tanysgrifwyr.

Llwyddodd Hedydd i siarad gyda'r rhan fwyaf o'r tanysgrifwyr ond methodd gael hyd i rif ffôn pawb. Byddai yn falch o glywed gan unrhyw un ohonoch na lwyddodd i gysylltu â hwy rhag ofn i hyn ddigwydd eto.

Hoffai Hedydd ymddiheuro am yr holl ffwdan a achosodd hyn. Os nad ydych wedi cael y llythyr a'r stampiau gan y Swyddfa Bost cysylltwch â hi os gwelwch yn dda.

# Mr Tom Sedgwick



Ar ddydd Gwener, 31ain Awst, amddifadwyd yr ardal hon o un o'i thrigolion mwyaf bonheddig ac addfwyn, sef Mr Tom Sedgwick. Bu farw'n dawel yn 87 mlwydd oed yng nghwmni ei deulu yn Ysbyty Bron-glais yn dilyn cyfnod byr o salwch.

Ganed Tom yn 1924 yn ardal Rhosmarchnad, rhwng Ffair-rhos ac Ysbyty Ystwyth, ac fe'i haddysgwyd yn Ysgol Ysbyty Ystwyth. Ymhen rhai blynyddoedd symudodd y teulu i fyw i Bow Street ac wedi gadael ysgol aeth Tom a'i frawd am gyfnod i weithio i deulu James Pantyfedwen yn Llundain. Bu'r ddau ohonynt yn lletya gyda'u modryb, a oedd yn byw yn ardal King's Cross. Ar ôl peth amser, dychwelodd Tom i'w gynefin a bu'n gwasanaethu ar wahanol ffermydd yn yr ardal.

Priododd â Doreen Lewis ar yr 8fed Medi 1962 yng nghapel Horeb, Penrhyn-coch a symud i fyw i Arfryn, Maes Seilo, Penrhyn-coch. Bu Tom o gymorth mawr i Doreen bryd hynny yn gofalu am ei brodyr a'i chwiorydd wedi iddi golli ei thad a'i mam yn ifanc iawn. Ymhen amser, codwyd y byngalow *Frondeg* yng Ngelli Angharad ac aeth y teulu yno gan greu aelwyd groesawgar a chynnes. Buont yn byw yno am 36 o flynyddoedd.

Ganed Mark ym 1966, ac wedi iddo briodi â Jayne, testun llawenydd mawr i Tom a Doreen oedd dyfodiad y ddwy wyres, Lily ac Abbey.

Roedd Tom yn medru troi ei law at amryw o bethau a bu'n gweithio i sawl cwmni yn ystod ei yrfa: Pickfords, y Farmers Co-op, Crosville ac Arriva. Bu hefyd yn gyrru lori olew. Wedi ymddeol bu Tom yn gyrru Bws S4C o gwmpas y Sioeau Cenedlaethol ac yn gyrru ceir i'r Trefnyddion Angladdau D J Evans a'i fab Selwyn Evans. Bu Tom yn un o aelodau cyntaf Pwyllgor Clwb Pêl-droed Penrhyn-coch ac roedd yn gymeriad poblogaidd ac adnabyddus. Bu'n was priodas i dri o'i gyfeillion. Roedd yn arddwr arbennig ac wrth ei fodd yn treulio amser yn tyfu blodau a llysiau yn Frondeg.

Daeth tyrfa luosog i'w angladd a gynhaliwyd ar ddydd Llun 10fed Medi yng nghapel Horeb. Traddodwyd teyrnged ar ran y teulu gan ei fab Mark ac yna gan y Parchedig Judith Morris. Cynorthwywyd yn y gwasanaeth gan y Parchedigion Ifan Mason Davies, W J Edwards ac Elwyn Pryse. Yr archgludwyr oedd Brian Evans, Gary Lewis, Dafydd Lewis a Sion James. Trefnwyd y blodau yn y capel gan Mrs Eirwen Sedgwick a dosbarthwyd y taflenni gan Mervyn Hughes a Richard Wyn Davies. Mrs Mair Evans oedd yn gwasanaethu wrth yr organ.

Cydymdeimlwn yn ddwys â Doreen, Mark, Jayne, Lily ac Abbie a'r teulu oll yn eu galar a'u profedigaeth o golli un a oedd mor annwyl yn eu golwg.

GWASANAETH
TEIPIO
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
PROSESYDD GEIRIAU
PRINTYDD LLIW
IONA BAILEY
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580



Deuthum ar draws yr hen lun hwn yn ddiweddar, a meddyliais y buasai o ddiddordeb i ardal Y Tincer. Credaf mai Mr W. R. Hall (Cambrian News) oedd y ffotograffydd. Dengys y llun bedair cenhedlaeth: Mrs Evans, Ynys-las, ei mab a'i merch yng nghyfraith, ei hŵyr a'i wraig, a'i gorwyrion. Roedd Mrs Evans o fewn pythefnos i ddathlu ei phen blwydd yn gant oed pan fu farw. Tybed a ŵyr rhywun am y teulu hwn?

*Erwyd Howells*

S4/C
Calon Cenedl
ers 30 mlynedd

Rhaglenni arbennig i ddathlu
pen-blwydd S4C

S4C yn 30
Atgofion y gwylwyr a chlipiau o'r archif
ers dechrau S4C ar 1 Tachwedd 1982

Plant y Sianel
Hanes cenhedlaeth o Gymry gafodd
eu geni 30 mlynedd yn ôl

Gwynfor
Drama ddogfen am flwyddyn dyngedfennol ym
mywyd Gwynfor Evans ac yn ymgyrch y Sianel

Dechrau Canu Dechrau Canmol
Cymanfa i ddathlu'r pen-blwydd

30

ytincer@googlemail.com
y tincer

# CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN

### Ymweld

Bu dwy o aelodau y capel yn ymweld yn ddiweddar â Nyrs Gladys Jones, sydd mewn Cartref gofal ger Cydweli. Arferai "Nyrs" fel y gelwid hi, fyw yn Maesrheidol, Stad Pen-llwyn, a bu yn fydwraig yn ein plith am lawer o flynyddoedd. Bu yn aelod ffyddlon o gapel Pen-llwyn, ac er fod y côf erbyn hyn yn pallu, roedd yn hynod o falch i'n gweld, sydd ond yn tanlinellu y ffaith, cymaint y mae rhai sydd mewn cartrefi henoed, yn gwerthfawrogi ymweliadau fel hyn.

### Marwolaeth

Eto y mis hwn trist yw cofnodi marwolaeth arall, sef Mrs Elizabeth Jenkins, gynt o Eithinog, Stad Pen-llwyn, ond bellach o Rheidol Place, Aberystwyth. Roedd yn 78 mlwydd oed, yn enedigol o Langwyrfon. Aeth i ysgol Pen-llwyn ac yna i Ardwyn. Priododd â Mr Jackie Jenkins; roedd yn chwaer i Gwilym Davies, a'r diweddar John Mary a Meurig. Cynhaliwyd ei hangladd ar yr 21ain o Fedi dan arweiniad yr Hybarch Hywel Jones. Estynnwn ein cydymdeimlad â Gwilym ei brawd ac unrhyw gysylltiad arall.



### Bedydd

Bore Sul 23ain o Fedi, bedyddiwyd Iestyn Dafydd yng Nghapel Seion gan y Parchg Wyn Rh. Morris; plentyn bach Jonathan ac Angharad Lewis, Bronllys, Pen-llwyn, heb anghofio y brawd bach Morgan Jac. Cafwyd gwasanaeth hyfryd, gyda chymun yn dilyn. Dymunwn pob bendith i'r teulu bach.

### Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad hefyd â Mr a Mrs Paul a Julie Hancock, Y Glyn. Mae Paul wedi colli ei fam yn ddiweddar mewn amgylchiadau trist. Bu mewn damwain ffordd, yn dychwelyd adre wedi bod yn ymweld â hwy. Cofiwn am Elfin bach hefyd wedi colli ei fam-gu.

### Croeso

Croeso cynnes i Mr a Mrs Ken a Liz Chorlton, gynt o Bont-goch, sydd wedi symud i mewn i Rhos Cottage, Capel Bangor (Rhos Parselau). Pob hapusrwydd iddynt.

### Artist lleol yn perfformio

Nos Iau Hydref 25ain yn Theatr, Canolfan y Celfyddydau am 7.45 bydd Bragod yn cyflwyno barddoniaeth o'r 14eg ganrif: Yr Wylan ac Offeren y Coed gan Dafydd ap Gwilym ac yna drama gomedi fer, Ymddiddan Arthur a'r Eryr. Bragod yw'r crythor Robert Evans o Gaerdydd - ond a anwyd yng Nghapel Bangor a'r gantores Mary-Anne Roberts o Trinidad, sy'n dehongli cerddoriaeth a barddoniaeth Gymraeg mewn ffordd unigryw. Mae Bragod yn dathlu 400 mlwyddiant llawysgrif Robert ap Huw (1613) - yr unig ddogfen wreiddiol i gofnodi yr hen gerdd dant sydd wedi goroesi - gyda pherfformiad cyffrous newydd i'r llais a'r crwth. Byddant hefyd yn perfformio ar Tachwedd 16 - Neuadd Powis,Prifysgol Bangor (01248 382828) ac ar Dachwedd 17 yng Nghanolfan Ucheldre,Caergybi (01407 763361). Ceri gwybodaeth pellach yn: http://www.bragod.com/ www.bragod.wordpress.com

### Noson Goffi

Cynhaliwyd noson goffi, yn festri'r capel Nos Wener 7ed o Fedi, i gael paned, a phrynu nwyddau oddi ar stondinau cacennau, llysiau, jam a "chutney". Daeth nifer ynghyd i brynu ac i gymdeithasu. Pwrpas y noson, oedd gwneud elw tuag at apêl y Cyfundeb eleni i Guatemala. Gwnaethpwyd elw o bron i 300 o bunnoedd, ond bydd rhaid trefnu un, os nad dau o ddigwyddiadau eto i gyrraedd y nod. Byddem yn dra ddiolchgar am unrhyw gyfraniad. Meddyliwn am y sefyllfa yn Guatemala. ninnau yng nghanol ein digon, a hwythau yn dioddef tlodi a sychder mawr, sydd fel llawer apêl arall gwir angen ein cymorth.

### Oedfa ddiolchgarwch

Cynhaliwyd oedfa ddiolchgarwch Eglwys Capel Bangor nos Fercher 10 Hydref gyda'r Parchg Ian Girling, Ficer y Drindod Sanctaidd, Aberystwyth yn pregethu.

### Merched y Wawr Melindwr

Nos Fawrth Hydref 2il cawsom noson ddifyr iawn yn mynd o amgylch Canolfan Rheidol. Ar ôl cerdded o amgylch a chael hanes sefydlu yr adeilad cafwyd pryd o fwyd blasus iawn yn y Ffreutur. Diolchodd Eirwen Mcnulty i Staff Canolfan Rheidol am eu croeso arbennig.

### Sioe Capel Bangor a'r Cylch

Cynhelir y Pwyllgor Blynyddol yn y Druid Goginan Nos Fercher Tachwedd 7fed am 7.30.y.h.

Croeso cynnes i aelodau newydd i ymuno.

### Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i ddau o Ysgol Uwchradd Tregaron - â chysylltiad gyda ardal y Tincer - sydd wedi eu dewis i dîm karate Cymru fydd yn cystadlu ym mhencampwriaeth Ewrop yn Belgrade, Serbia ym mis Rhagfyr.

Mae Meleri Pryse, 16 oed, yn wyres i'r Parchg Elwyn Pryse, Is-garn, Bow Street ac mae hi a'i brawd Eilir yn gystadleuwyr brwd ar gerddoriaeth a llefaru yn Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch. Mae Meleri, a Steven Bailey, 18 oed, yn ddisgyblion lefel A yn Ysgol Uwchradd Tregaron. Gwelir Steven ar ddyddiau Sadwrn yn gweithio yng Nghaffi Morgan, Aberystwyth. Ei fam Iona fu'n teipio'r Tincer ers Hydref 1991 (pob yn ail fis gyda Linda Griffiths hyd Fedi 1996 ac yn fisol o Hydref 1996 ymlaen). Bu ei fam-gu - Mrs Gwladys Jones - yn cadw tŷ capel Pen-llwyn. Caiff y ddau eu hyfforddi gan Paul James sydd ar staff y Llyfrgell Genedlaethol

A hithau ond 16 mlwydd oed, roedd gan Meleri dasg fawr o'i blaen ar ôl symud i fyny categori eleni i gystadlu yn y gystadleuaeth Kata i ferched dan 21. Synnwyd pawb pan hwyliodd drwy y rowndiau rhagbrofol gyda'r sgoriau uchaf. Gan gystadlu yn y ffeinal fel un o'r ffefrynnau perfformiodd ddehongliad ardderchog o Gankaku, gan ennill y teitl Prydeinig ar ei hymdrech gyntaf.

Efallai i Steven Bailey gael sialens galetach. Ac yntau newydd gael ei ben blwydd yn ddeunaw y diwrnod cynt symudodd i fyny i'r digwyddiad



Llun: Paul James

i ddynion dros 18 olygai mai ef oedd yr ifancaf yn ei gategori. I wneud pethau'n anoddach roedd y digwyddaid yma yn cynnwys y Pencampwr Byd cyfredol, y Pencampwr Ewropeaidd a dau arall oedd wedi ennill medalau rhyngwladol.

Gyda pherfformiad gwych o Gojushiho Dai yn y rownd gyn derfynol fe gollodd Steve y medalau o drwch blewyn - 0.1 pwynt! O foddi yn ymyl y lan dengys fod gan Steve gymaint i'w gynnig a'i fod yn enw y byddwn yn siwr o glywed amdano yn y dyfodol

Kata - gair Siapaneg yn disgrifio patrymau coreograffi manwl o symudiadau unigol neu mewn parau.

Gankaku - ffurf ddatblygiedig o kata sy'n cael ei ymarfer mewn karate.

Mae Gojushiho Sho a Gojushiho Dai yn ddau o'r kata mwyaf datblygedig yn y sylabws Shotokan (math o karate).

# Cyngor Cymuned Trefeurig

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, 18 Medi 2012, yn Hen Ysgol Trefeurig gyda'r Cadeirydd, Edwina Davies, yn y gadair. Roedd Trefor Davies, Mel Evans, Daniel Jones, Dai Rees Morgan, Richard Owen, Jeff Pyne ac Eirian Reynolds yn bresennol ynghyd â'r Clerc a'r Cynghorydd Sir, Dai Mason. Estynnwyd cydymdeimlad â Tegwyn Lewis yn ei absenoldeb ar golli modryb yn ddiweddar.

Adroddwyd fod dwy lamp arall wedi cael eu symud o Ger-y-llan. Gofynnwyd i'r Clerc wneud ymholiadau pa bryd y disgwylir ailosod y lamp a ddifrodwyd gyferbyn â'r Garej. Trafodwyd cyflwr map y pentref a phenderfynwyd y dylid ysgrifennu at Mr Walker i holi a fyddai'n fodlon gwneud gwaith ar y ffrâm i ddiogelu'r map.

Adroddodd y Cynghorydd Sir y byddai'n cyfarfod cynrychiolwyr o Adran Briffyrdd y Sir yn fuan i drafod materion lleol, megis ffordd Salem. Penderfynwyd cysylltu â'r Brifysgol i weld beth fyddai'r posibilrwydd o gael rhywfaint o dir i ledu'r ffordd rhwng Gogerddan a'r ffordd fawr. Roedd gwybodaeth wedi dod na fyddai angen defnyddio rhan o gae chwarae Pen-bont wedi'r cyfan ar gyfer y gwaith o drin y bont a ddifrodwyd adeg y llif diweddar gan y byddai'n bosib darparu pont dros dro. Nododd Jeff Payne fod cryn dipyn o gerrig a mwd ar ochr y ffordd yng Nghwmerfin o hyd er fod peiriant sgubo'r Cyngor Sir wedi bod yno.

Roedd cryn swm o ohebiaeth wedi'i dderbyn gan amrywiol gyrff gan gynnwys y cynigion ar gyfer cyfarfod blynyddol Un Llais Cymru ym mis Hydref.

Penderfyniadau cynllunio wedi dod oddi wrth y Cyngor Sir: codi tŷ uwchlaw i'r Rhandir – gwrthodwyd; estyniad i 38 Dôl Helyg – caniatawyd; codi stand 150 sedd ar faes pêl-droed Penrhyn-coch – caniatawyd. Ceisiadau: mynedfa etc. i dŷ ar safle ger Plas Gwyn, Penrhyn-coch – dim gwrthwynebiad.

Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â'r Cyngor Sir i ofyn beth yw gwerth Hen Ysgol Trefeurig ar restr asedau'r Cyngor. Hefyd i gysylltu â'r Cyngor Sir ynglŷn â'r tyllau ar ffordd Llwynprysg, a gofyn i'r Cyngor Sir gysylltu â pherchennog y coed sydd wedi gordyfu ar y ffordd honno. Nodwyd fod Dŵr Cymru yn bwriadu gwneud gwaith sylweddol yn yr ardal; y Clerc i ofyn iddynt roi rhybudd o hynny i'r bobl a fyddai'n cael eu heffeithio.

# DÔL-Y-BONT

### Pen blwydd arbennig

Penblwydd hapus i Rhian Cory, Bryngwyn, a fu'n dathlu ei phen blwydd yn 30 ddiwedd mis Medi.

### Cofion a llongyfarchiadau

Anfonwn ein cofion at Kenneth Evans, Tynsimdde, a fu yn derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Treforus yn ddiweddar. Da yw deall ei fod adref ac yn gwella.

Bydd Ken a'i briod Joy yn dathlu pen blwydd priodas Berl ar 16 Hydref - llongyfarchiadau a phob dymuniad da iddynt.

### Diolchgarwch

Cynhaliwyd Cyfarfod Diolchgarwch Capel y Babell pnawn Sul, 7 Hydref.

Cymerwyd y Gwasanaeth gan y Gweinidog y Parchg Wyn Morris.

Yn ystod yr Oedfa croesawyd Eveline Jones, Y Wennol, yn ôl atom ar ôl iddi fod yn Ysbyty Bron-glais ac yng Nghartref Bodlondeb.

Anfonwyd ein cofion at ei phriod Islwyn a llongyfarchwyd y ddau ar ddathlu 67 o flynyddoedd priodasol.

### Nôl i drefn

Edrychwn ymlaen yn fawr at weld rhai o drigolion y pentref yn dychwelyd i'w cartrefi. Maent wedi bod ar chwâl ers y llifogydd rai misoedd yn ol.

Mae prysurdeb mawr ym mhob tŷ ar hyn o bryd ac adeiladwyr wrthi yn ddygn yn ceisio cael y lle i drefn. Hei lwc y byddant yn ôl gyda ni yn fuan.

Mae Cyngor Ceredigion yn cynnal cyfarfod eto yng Nghapel y Babell ganol mis Hydref er mwyn i'r trigolion gael trafod unrhyw broblemau a datgan barn ar y ffordd ymlaen.

# BOW STREET

**Oedfaon y Garn 10.00 a 5.00**
**http://www.capelygarn.org/**
*Hydref*
21 Bugail Cymun yn oedfa'r bore
28 J. E. Wynne Davies
*Tachwedd*
4 Bugail Cen Llwyd
11 Adrian Williams
18 Bugail Bore: oedfa gymun; hwyr: oedfa ym Methlehem, Llandre
25 Arwyn Pierce

## Brenhines Rali C.Ff.I Pen-parc 1961 a'u Morwynion

## Aduniad Aberaeron 2012



Jean Cameron, Tregaron; Jean Davies, Pen-parc; Glesni Jones, Dihewyd; Eleri Evans, Troed-yr-aur (Brenhines); Elsbeth Lloyd, Cross Inn; (Y ddiweddar) Audrey Williams, Capel Seion; Jean Hawkins, Llanilar.



(Rhes ôl) Jean Cameron; Jean Davies; Jean Jones (Hawkins) ac Eleri Evans (Rhes flaen) Glesni Jones ac Elsbeth Lloyd

### Gwasanaeth bedydd

Bore Sul, 9 Medi, bedyddiwyd Lois Martha, merch Steffan ac Elen Roberts, Mynydd Gorddu, ac wyres Rhian Huws, Caerffili, yng Nghapel y Garn gan y Parchg Wyn Rh. Morris. Pob dymuniad da i'r teulu.

### Elystan: Amrywiol Atgofion

Fel rhan o Ŵyl Lyfrau'r Morlan, Aberystwyth, bydd Dylan Iorwerth yn holi'r Arglwydd Elystan-Morgan yn y Morlan nos Wener, 9 Tachwedd am 7.30 o'r gloch, i ddathlu cyhoeddi ei hunangofiant. Bydd darpariaeth cyfieithu ar y pryd ar gael. Bydd copïau o'r gyfrol, a gyhoeddir gan Wasg y Lolfa, Tal-y-bont, hefyd ar werth, pris £12.95

### Operation Christmas Child

Dydd Sul 18 Tachwedd yw dyddiad olaf derbyn bocsys gan Eddie a Bethan Jones

### Priodas ruddem

Llongyfarchiadau i John a Joyce Bowen, 35 Tregerddan, fydd yn dathlu priodas rhuddem ar 28 Hydref.

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Morwenna Hill a'r teulu, Cae Rhos, ar farwolaeth sydyn Barry Hill, ar Hydref 1af yn Ysbyty'r Brifysgol, Caerdydd.

### Aduniad

I ddathlu hanner canmlwyddiant ei choroni fel Brenhines Rali C.Ff.I Penparc 1961 daeth Eleri Evans i gysylltiad â'i morwynion gyda'r bwriad i drefnu aduniad. Cynhaliwyd yr aduniad yng Ngwesty'r Plu, Aberaeron yn ddiweddar, ond dim ond chwech oedd yn bresennol a chofiwyd gyda thristwch am y ddiweddar Audrey Williams. Yna bu'r chwech yn mwynhau "Te Prynhawn" ac yn rhoi'r byd yn ei le cyn troi am adref gydag atgofion melys am yr achlysur.

### Gohebydd ychwanegol

Croeso a diolch i Maria Owen fel gohebydd ychwanegol i Bow Street o fis Tachwedd ymlaen. Gyrrwch eich newyddion iddi hi (swyddfa'r Post - rhif ffôn 828 201 neu un o ohebwyr arall y pentref.

### Merched y Wawr Rhydypennau

Ar nos Lun Medi y 10fed, croesawodd ein llywydd, Brenda Jones, bawb yn wresog i gyfarfod cyntaf o'r tymor. Agorwyd y



Nos Iau, Hydref 11eg, cawsom gyfarfod cyntaf o Glwb CIC yn Bow Street, ac roeddem i gyd wedi mwynhau dod i adnabod ein gilydd a chwarae gêmau. Mae croeso i unrhyw un o flwyddyn 6 ac o ysgolion uwchradd y dalgylch i ymuno â ni - cysylltwch ar gogleddceredigion@gmail.com am fwy o wybodaeth.



cyfarfod ar nodyn trist iawn wrth i ni gofio am Tegwen Pryse a oedd yn aelod ffyddlon a hir i'r gangen. Bu Tegwen farw yn annisgwyl ym mis Mehefin ar ôl derbyn triniaeth lawfeddygol. Talodd Brenda deyrnged hyfryd iddi.

Ar ôl trafod busnes y gangen croesawodd Brenda ein gwraig wadd atom, sef Bethan Gwanas, yr awdures, yr arddwraig, y deithwraig a'r golygydd. Daeth atom i sôn am ei llyfrau, rhai ei hun ac eraill. Gwnaeth hyn mewn ffordd ddifyr tu hwnt, sy'n nodweddiadol ohoni. soniodd hefyd am ei hunangofiant sydd ar fin dod allan. Noson hwyliog dros ben. Diolchodd Brenda yn fawr iddi.

I orffen cafwyd lluniaeth ysgafn wedi ei baratoi gan y pwyllgor dan ofal Gaenor Jones a Mair Lewis. Cafwyd raffl ychwanegol i'w dynnu gan i Bethan roi ei llyfr *Mwy o fyd Bethan* i'w rafflo. Yr enillydd oedd Bethan Hartnup. Marian B Hughes enillodd y raffl arferol.

### Ysgolion Sul

Gan ddilyn dymuniad rhieni plant ysgolion Sul y Garn a'r Noddfa, mae'r trefniant i gynnal un ysgol Sul unedig yn parhau. Yn dilyn trip yn llawn hwyl ac antur i Geinewydd yn ystod yr haf, daeth y plant a'u rhieni ynghyd yn y Garn yn ystod mis Medi, ac mae'r ddwy yn cwrdd yn Noddfa mis Hydref, yn y Garn mis Tachwedd, ac yna'n cyfarfod ar wahân yn ystod mis Rhagfyr er mwyn i'r capeli baratoi at eu hoedfaon Nadolig. Cynhelir yr ysgol Sul am 10 y bore. Mae croeso cynnes iawn i blant a phobl ifanc ymuno, ac mae'r sesiynau'n rhai hwyliog a difyr bob tro.

### Gwellhad buan a llongyfarchiadau

Pob dymuniad da i Vernon Jones, Gaerwen, am wellhad buan wedi anffawd yn y caeau pan dorrodd ei figwrn. Hefyd llongyfarchiadau i Vernon ar ei lwyddiant yn Eisteddfod Teulu James yn Llanbedr Pont Steffan, gan gipio sawl gwobr. Llongyfarchiadau hefyd i Dilys Baker-Jones, Gaerwen, ar ennill cystadleuaeth rhyddiaith/stori fer gyda chlod mawr yn yr un Eisteddfod.

### Dyweddiad

Llongyfarchiadau i Rhŷs ap Tegwyn, Maes Ceiro, a Nia Lewis o Landyfrïog ger Castellnewydd Emlyn ar eu dyweddïad yn ddiweddar. Dymuniadau gorau i'r ddau oddi wrth eu teuluoedd a'u ffrindiau i gyd.

## Datblygiad newydd i Faes Chwarae Rhydypennau

Ar nos Wener Hydref 26ain gwelwn gychwyn pennod arall yn hanes Cymdeithas Maes Chwarae Rhydypennau. Bryd hynny bydd y gêmau cyntaf yn cael eu chwarae ar yr 'astroturf' newydd sy'n cael ei osod ar yr hen gyrtiau tennis ger Cae Piod. O nos Lun, Hydref 29ain ymlaen, bydd modd i drigolion yr ardal logi'r adnodd gwych hwn i fwynhau nifer o weithgareddau, yn ystod y dydd ac wedi'r hwyr o dan y llifoleuadau – beth bynnag y tywydd!

Ers dros flwyddyn mae Cymdeithas Maes Chwarae Rhydypennau wedi bod wrthi'n ddiwyd yn edrych am nawdd i'r cynllun hwn, a bellach mae'r pwyllgor wedi casglu dros £60,000 tuag at y gronfa. Cefnogwyd y fenter gan gyrff lleol a chenedlaethol, a bu sawl aelod o'r gymuned yn gweithio'n ddidor ar y safle gydol yr haf. Hoffai pwyllgor Cymdeithas Maes Chwarae Rhydypennau ddiolch yn ddiffuant i bawb sydd wedi cefnogi a chyfrannu mor hael tuag at y prosiect.

I gofnodi'r datblygiad newydd hwn yn swyddogol, bydd agoriad cyhoeddus yn cael ei gynnal ar nos Wener, Hydref 26ain am 6 o'r gloch, a chynhelir y sesiynau cyntaf nos Lun, Hydref 29ain. Am fanylion pellach ynglŷn â llogi'r adnodd, cysylltwch gyda Amlyn Ifans ar 07968564767.

Nos Iau, Hydref 11eg, cawsom gyfarfod cyntaf o Glwb CIC yn Bow Street, ac roeddem i gydawedi mwynhau dod i adnabod ein gilydd a chwarae gêmau. Mae croeso i unrhyw un o flwyddyn 6 ac o ysgolion uwchradd y dalgylch i ymuno â ni - cysylltwch ar gogleddceredigion@gmail.com am fwy o wybodaeth.



Gwesty'r Llew Du
Black Lion Hotel
Talybont, Ceredigion, SY24 5ER
Bwyty a Bar Newydd!
Cinio 12 - 2.30
Dau gwrs am £10 y person
Mercher i Sadwrn
Swper Nos 6 - 9
Mawrth i Sadwrn
Cinio Sul 12 - 3
Prydau o £9
Galwch heibio!
01970 832 555
www.gwestyllewdu.com

# O'r Cynulliad – Elin Jones



Dros yr haf, cychwynnodd y Bwrdd Iechyd Hywel Dda y cyfnod ymgynghori ffurfiol ar eu cynlluniau i ddiwygio gwasanaethu iechyd lleol. Yn y cyfarfod cyhoeddus diweddar a drefnwyd ganddynt yn Aberystwyth, pwysleisiwyd y bydd yr adran Damweiniau ac Argyfwng, yr adran Orthopaedig a'r adran Famolaeth yn parhau ym Mron-glais. Fodd bynnag, codwyd pryderon gan y gynulleidfa yn ystod y cyfarfod ynghylch y gostyngiad yn y nifer o welyau ym Mron-glais a'r gwahanol wardiau sydd yn cael eu cau oherwydd y diffyg staff yno. Rwy'n gobeithio y bydd y Bwrdd Iechyd yn gweithredu ar y materion pwysig yma ac yn talu sylw i'r farn gyhoeddus.

Er nad yw cynlluniau'r Bwrdd Iechyd yn effeithio cymaint ag yr oeddem wedi ei ofni ar Fron-glais, rhaid i ni barhau i ymgyrchu dros barhad yr holl wasanaethau iechyd craidd sydd eu hangen arnom yn yr ardal. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gobeithio darparu mwy o driniaethau yn y gymuned a sefydlu Canolfannau Adnoddau Cymunedol yn Aberteifi ac Aberaeron, a chyd-weithio gyda Chyngor Sir Ceredigion ar brosiect Cylch Caron. Mae angen i ni gael mwy o fanylion ynghylch goblygiadau'r newidiadau yma i'n gwasanaethau cymunedol, ac fe fyddaf yn cadw llygad ar y sefyllfa wrth i'r cynlluniau yma ddatblygu.

Gwnes fynychu digwyddiadau amrywiol ar hyd a lled y sir yn ystod yr haf. Roeddwn yn falch i fod yn bresennol yn agoriad swyddogol Llyfrgell newydd y Dref yn Aberystwyth, ac roedd hi'n dda gweld Currys PC World yn ail-agor yn swyddogol wedi'r difrod adeg llifogydd mis Mehefin. Roedd hi hefyd yn fraint i agor Cae Chwarae Angharad ym Mhontrhydfendigaid, sydd wedi cael ei enwi ar ôl merch leol a gafodd ei lladd mewn damwain car ychydig flynyddoedd yn ôl.

Yng nghanol mis Medi fe ddaeth y Gweinidog Busnes, Edwina Hart AC i fynychu dau gyfarfod gyda fi, y cyntaf gyda rhai o fusnesau tref Aberteifi a'r llall gyda pherchnogion busnesau twristaidd o Geredigion. Yn ystod y cyfarfod, fe glywodd y Gweinidog am yr anawsterau y maent yn eu hwynebu yn yr hinsawdd economaidd rydym ynddi, ac rwy'n gobeithio bod y bobl busnes oedd yn bresennol yn cytuno y cafwyd cyfarfod buddiol.

# ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL

### Dathlu deugain

Eleni mae Urdd y Benywod yn dathlu deugain mlynedd o fodolaeth a prynhawn Sadwrn Medi 22ain daeth dros ugain o aelodau presennol a chyn aelodau ynghyd i Westy Nanteos i fwynhau tamaid o fwyd a chyfle i gymdeithasu Tywyswyd ni oamgylch y Plas a'r gerddi a chan fod y tywydd yn braf cawsom amser pleserus iawn.

Yn y llun gwelir chwech o aelodau gwreiddiol, sef Freda Morris - gynt o Neuadd Parc; Jean Davies -gy nt Fferm Aber-ffrwd; Mair Stanleigh, Dolfawr; Gwen Morgan, Y Byngalo; Eirlys Davies, Caehaidd a Nancy Evans Ty-poeth.

Yn y llun arall gwelir pawb a oedd yn bresennol yn y te dathlu.

Nos Lun Hydref 1af cawsom noson yng nghwmni Margaret Ovens o Dal-y-bont. Cawsom ei hanes yn gweithio gyda'r gwenyn ac mi 'roedd yn ddiddorol iawn gweld sut y mae rhain yn cynhyrchu y mêl. Gwnaethpwyd y te gan Norma Stephens a Gill Farthers.

### Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Nora Higgs, Abernant, ar farwolaeth ei brawd yn Worthing.





**Cofiwch gysylltu â ni**
**ytincer@googlemail.com**

# TREFEURIG

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Linda a Danny, Lisa, Gwenno a Mari, Maes Meurig, ar farwolaeth mam Linda o Langynyw, ger Meifod .

### Llwyddiant Ddwbl

Enillodd Partneriaeth Rheilffyrdd y Cambrian ddwy wobr genedlaethol ddechrau Hydref yn ystod seremoni wobrwyo 'ACORP' (Cymdeithas Partneriaeth Rheilffyrdd Cymunedol) a gynhaliwyd yn amgueddfa 'STEAM' Swindon. Enillodd y bartneriaeth rheilffordd lleol y wobr gynta' am y Cyhoeddiad Marchnata Gorau am y daflen *Cymru ar y Cledrau* sy'n cynnig syniadau ar sut i dreulio gwyliau byr yn ardaloedd Aberystwyth, Machynlleth ac Aberdyfi, ac hefyd y wobr gynta' yng nghategori Cynnwys Pobl Ifanc am y ffilm Diogelwch Dosbarth Cyntaf sy'n cynnwys disgyblion o Ysgol Ardudwy, Harlech ac Ysgol Uwchradd Tywyn.

"Da ni'n falch iawn ein bod wedi ennill nid yn unig un, ond dwy wobr," dywedodd Swyddog Datblygu'r Bartneriaeth, Rhydian Mason.

"Rhywbeth i roi ysbrydoliaeth a syniadau i deithwyr yw *Cymru ar y Cledrau* sy'n dangos sut y gall grwpiau teuluol dreulio gwyliau rhad yn y canolbarth gan ddefnyddio'r trên yn unig. Mae'n ffocysu ar drefi Machynlleth, Aberystwyth ac Aberdyfi ac yn nodi nifer o leoliadau ac atyniadau rhad a all gynnig amser teuluol da i'r rhai hynny ar wyliau."

Canllaw i ddefnyddio'r trên yn ddiogel yw'r ffilm *Diogelwch Dosbarth Cyntaf* a wnaethpwyd gyda chefnogaeth disgyblion ac athrawon Ysgol Ardudwy, Harlech ac Ysgol Uwchradd Tywyn. Dywedodd Rhydian fod mewnbwn yr ysgolion yn



allweddol i lwyddiant y ffilm, a bod y ffilm eisoes yn fan cychwyn i nifer o fentrau arall cysylltiedig a fydd yn dwyn ffrwyth ar hyd y rhwydwaith yn ardal y Cambrian.

Dywedodd Ben Davies, Rheolwr Rhanddeiliaid Trenau Arriva Cymru:

"Mae'r fideo wedi bod yn fenter trwy bartneriaeth ac yn enillydd teilwng, mae'n addysgu plant a phobl ifanc ar sut i fod yn ddiogel ar y trên, ond hefyd yn dangos lein y Cambrian ar ei gorau. Mae'r pamffled hefyd yn dangos fod ardal y Cambrian yn atyniad yn ei hun. Gan weithio ar y cyd gydag ymgyrchoedd twristiaeth yng Ngogledd Orllewin a Chanolbarth Lloegr mi fyddant yn adnoddau arbennig I ddenu ymwelwyr atom yma."

Mae'r ffilm a'r pamffled i'w gweld ar wefan y bartneriaeth: www.leinycambrian.co.uk

# GOGINAN

### Humphrey Owen Jones

Dylai enw a manylion y Parchg Ifan Mason Davies fod wedi ymddangos o dan yr erthygl Humphrey Owen Jones ar t.4 o rifyn Medi. Os gwyddoch lle oedd Rock Cottage, Melindwr, Goginan neu am aelodau o'r deulu sy'n dal yn fyw cysylltwch â'r Parchg Ifan Mason Davies, Rhiwfelen, Goginan. (01970 880869) ifanne.coedrhiwfelen@gmail.com

### Cwrdd Diolchgarwch

Nos Wener, 5ed o Hydref, yng Nghapel Dyffryn cynhaliwyd Cwrdd Diolchgarwch am y cynhaeaf.

Y pregethwr gwadd oedd y Parchedig J. E. Wynne Davies, Aberystwyth. Fel arfer cafwyd ganddo bregeth amserol a grymus. Roedd ei neges yn seiliedig ar adnod o bennod 28 yn Llyfr y Proffwyd Eseia – "Ni frysia'r sawl sy'n credu"

Pwysleisiodd mai dim diolch am y cynhaeaf yn unig yw Gŵyl Ddiolchgarwch ond diolch am yr Aberth a wnaeth Grist drosom ar Groes Galfaria.

Estynnwyd croeso i ffrindiau o ardaloedd cyfagos a ddaeth i ymuno gyda ni yn yr oedfa. Braf yw cael eich cwmni.

Addurnwyd y capel yn hardd gyda blodau wedi eu trefnu gan Eirlys Davies, Brynmeillion – mae hi wrth ei bodd yn trefnu blodau ac yn barod iawn ei gwasanaeth bob amser. Diolch yn fawr Eirlys.

### Pob Lwc

Dymuniadau gorau i Iona Jones, Tir Na Nog, Cwmbrwyno gynt, ar ddechrau ei triniaeth yng Nghaerdydd a dymunwn lwyr wellhad buan iddi.


SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH
Perchennog: Lawrence Kelly
AR AGOR
Llun - Sadwrn
7 y bore - 9 yr hwyr
Sul
7 y bore - 7 yr hwyr
Papurau dyddiol a'r Sul, llyfrgell fideo, cardiau cyfarch siop drwyddiedig
01970 828312

ANIFEILIAID TEW
eu hangen i'w lladd mewn lladd-dy lleol
Cysylltwch â
TEGWYN LEWIS
01970 880627

CTE
C. TREFOR EVANS
TREFNWR ANGLADDAU
"PLAS BRONGENAU"
LLANDRE
ABERYSTWYTH
Ffôn 820013

SWYDDFA'R POST BOW STREET
NWYDDAU
MELYSION
CYLCHGRONAU
CARDIAU CYFARCH
PAPURAU DYDDIOL A'R SUL
JOHN A MARIA OWEN

RHODRI JONES
Brici a chontractiwr adeiladu
07815 121 238
Gwaith cerrig
Adeiladu o'r newydd
Estyniadau Patios
Waliau gardd
Llandre Bow Street

# Bara Caws yn galw am drefnwyr!

O'i gartref yng Nghaernarfon mae Bara Caws wedi bod yn cynnig cynyrchiadau wedi eu cynllunio a'u perfformio yn arbennig i gynulleidfaoedd Cymraeg yn eu cymunedau ers dros ddeg mlynedd ar hugain.

'Rydym yn teithio Cymru gyfan yn rheolaidd, yn perfformio mewn neuaddau pentref, canolfannau cymdeithasol, theatrau, ysgolion a chlybiau.

Cynigir y perfformiadau am ffi resymol i unrhyw gymdeithas neu fudiad sydd yn dymuno gwahodd Bara Caws i'w hardal. Disgwylir i'r mudiadau sicrhau canolfan addas, dosbarthu tocynnau a hybu'r cynhyrchiad yn lleol gyda phosteri a deunydd marchnata a baratoir gan y cwmni. Mae unrhyw elw ddaw o'r nosweithiau yn mynd yn syth i achosion da lleol. Tros y blynyddoedd mae Bara Caws wedi creu rhwydwaith cryf o drefnwyr dros Gymru i gyd a phob amser yn awyddus i glywed gan unigolion sy'n fodlon mentro.

Teimlwn fod y system hon o drefnu yn gweithio cystal gan fod y trefnwyr lleol gymaint mwy cyfarwydd â'u milltir sgwâr, ei disgwyliadau a'i chynulleidfaoedd. O ganlyniad mae trefnydd da yn gweithredu fel dolen gyswllt rhwng Bara Caws a'r gymuned, gan sicrhau cynulleidfaoedd cryfach a nosweithiau llwyddiannus.

Felly, os oes gennych chi awydd ymuno â'n rhwydwaith werthfawr o drefnwyr, ac am wahodd Bara Caws i berfformio yn eich cymuned chi, cysylltwch rhag blaen â Linda Brown ar linda@theatrbaracaws.com neu drwy ffonio 01286-676335.

TACSI EDDIE
BWS MINI, CEIR SALŴN
LLAWR IS AR GYFER CADAIR OLWYN
NEU SGWTERS SYMUDOL
YN ARBENIGO MEWN
TRAFNIDIAETH I'R ANABL
01970 828 642
07790 961 226
07800 500 481
tacsieddie@hotmail.co.uk

y tincer



# Cystadleuaeth Aredig Cymru Gyfan Ceredigion 2012

Ar ddydd Gwener y 21$^{ain}$ a dydd Sadwrn yr 22$^{ain}$ o Fedi 2012 cynhaliwyd Her Aredig y Pum Gwlad a Phencampwriaeth Aredig Cymru Gyfan Riverlea Claas ar gaeau Fferm Morfa Mawr, Llann-non trwy ganiatâd IBERS, Aberystwyth.

Ar gyfer yr Her Aredig Pum Gwlad Dydd Gwener, roedd yna ddau gystadleuydd yr un o Gymru, Lloegr, Yr Alban, Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon. Roedd dau fath o aredig sef gyda aradr draddodiadol ac aradr cildroadwy (reversible), â'r ddaear i droi yn dîr glas (porfa). Hefyd, roedd yna droi hen ffasiwn, torri uchel a throi gyda cheffylau.

Dydd Sadwrn, tasg y cystadleuwyr i gyd oedd troi tir sofol (ar ôl cnwd o lafur). Roedd yna 9 gwahanol ddosbarth, o dractorau ac ereidr modern, tractorau ac ereidr llusgo, ereidr heidrolig a cheffylau. Hefyd, i gadw diddordeb y llu ymwelwyr a ddaeth atom ar ddiwrnod mor braf, roedd yna gystadlaethau rhychio, torri twll a ffensio. Cafwyd hefyd nifer dda o stondinau masnachol a oedd yn gwerthu nwyddau amrywiol o ieir i deiars tractor.

Ger y cae parcio, cafwyd arddangosfa helaeth o hên beiriannau, hên injan stêm ac arddangosfa weithiol o ddyrnu ysgubau llafur a dorrwyd o'r caeau tua bythefnos yng nghynt.

Ar ddiwedd y cystadlu, dyfarnwyd mai Elfed Jones, Ty-Hen, Llanfihangel Glyn Myfyr, Corwen oedd Pencampwr Cymru gydag Evan Watkin, Tybrith, Newmills, Y Drenewydd yn is-bencampwr. Bydd y ddau yma nawr yn cynrychioli Cymru yng Nghanada y flwyddyn nesaf.

Ar ran pwyllgor Cymdeithas Aredig Ceredigion 2012, dymunaf ddiolch yn fawr iawn i bawb a gefnogodd y digwyddiad mewn unrhyw fodd. Glyn Davies (Is-gadeirydd).



# Oedfa Gomisiynu Eleri Barder

**Menter Gydenwadol Eglwysi Gogledd Ceredigion**

Ar fore dydd Sul, 30ain Medi daeth tyrfa luosog ynghyd i gapel Bethel, Stryd y Popty, Aberystwyth i oedfa gomisiynu Eleri Pierce Barder, Swyddog Datblygu Gwaith Plant ac Ieuenctid Menter Gydenwadol Eglwysi Gogledd Ceredigon.

Croesawyd y gynulleidfa i Fethel yn sŵn byrlymus y gerddorfa a ffurfiwyd o blith ieuenctid eglwysi'r ardal o dan arweiniad Llio Penri. Fe'i cynorthwywyd gan Mary Jones Morris oedd yn cyfeilio ar yr organ.

Gwenan Creunant, Cadeirydd y Fenter, oedd yn gyfrifol am lywyddu'r Oedfa ac am gomisiynu Eleri yn ffurfiol. Llwyddodd Gwenan i osod cywair hyfryd iawn a bu'r oedfa ar ei hyd yn un hwylus a llawen. Wedi'r comisiynu cafodd Eleri gyfle i ymateb ac i rannu ei phrofiad o ddod i adnabod yr Arglwydd Iesu fel ei Gwaredwr. Yn sicr creodd argraff arbennig ar y gynulleidfa.

Dr Owain Edwards, Coleg y Bala a roddodd yr anerchiad yn seiliedig ar gwestiwn yr Iesu: *Pwy y mae pobl yn dweud yw Mab y Dyn?* a llwyddodd i ennyn ymateb arbennig gan y plant drwy gyfrwng lluniau pwerpwynt , caneuon a sgwrs hynod bwrpasol.

Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan blant ac ieuenctid eglwysi'r ardal. Cyhoeddwyd yr emyn cyntaf gan eglwys Elim, Llanddeiniol ac fe ddarllenwyd o'r Ysgrythur gan eglwys Rhydlwyd, Lledrod. Offrymwyd gweddïau dros Gymru, dros yr eglwysi a'r ysgolion Sul, dros Eleri a'r Fenter, gan eglwysi Seion, Aberystwyth: Y Morfa, Aberystwyth a Bethel, Tal-y-bont. Cyhoeddwyd yr emyn olaf gan eglwys Pen-llwyn, Capel Bangor.

Wedi'r oedfa cawsom gyfle i gymdeithasu dros baned o de yn y festri. Cyfanswm yr offrwm a dderbyniwyd er budd Apêl Beibl.net oedd £425-00. Diolch yn fawr iawn i bawb a ddaeth i gefnogi'r oedfa a dymunwn bob bendith ar waith y Fenter.

# Colofn Mrs Jones

Collodd Machynlleth ei diniweidrwydd yr wythnos hon. Fel un a fagwyd yn y dref gwn tref mor ddiogel oedd hi i blant a'i bod wedi llwyddo i barhau felly er gwaethaf y newid mawr sydd wedi bod yn natur y boblogaeth yn ddiweddar. Ar ddiwedd tymor ysgol, ein rhybuddio i ochel y shiafftiau mwyn a'r hen chwareli llechi a wnâi'r prifathro wrth ein rhybuddio i gymryd gofal dros yr haf. Nid oedd angen mwy.

Mae'n wir fod ambell i berson yn y dref y byddai ein rhieni yn ein rhybuddio rhagddynt, dau a bod yn fanwl, ond, at ei gilydd, gallem ymddiried ym mron bawb yr oeddem yn eu hadnabod. Ac yr oedd gennym ni blant, un ac oll, amheuaeth ddwfn o dwristiaid - ar wahân i Americanwyr oherwydd fe dalai y rheini ambell i chwe cheiniog i fedru ein tapio yn siarad Cymraeg!

Fe wn na fu newid mawr yn y sefyllfa wrth i'm cyfeillion ysgol fagu eu plant a gallwn weld fod hyn yn dal yn wir am blant y plant hwythau. Cymuned fechan glos yw'r dref a mae pawb yn edrych am blant pawb arall, rhwng hynny a'r ffaith fod y man lle chwaraeai April o flaen tai gan gynnwys ei chartref ei hun, roedd gan ei rhieni berffaith hawl i feddwl ei bod yn ddiogel hyd yn oed am saith y nos a hithau yn dal yn olau.

Wrth gwrs, mae'r gymuned wedi newid. Pan oeddwn i yn tyfu i fyny yn y dref, yr oedd bron i 90% o'r boblogaeth yn Gymry Cymraeg ac yn bobl leol o'r crud. Bellach, mae'r canran o siaradwyr Cymraeg a'r teuluoedd cynhwynnol wedi syrthio yn sylweddol wrth i'r boblogaeth gynyddu. Mae nhw yn dal yno ond daeth pobl eraill atynt. Rhaid peidio a gwneud gormod o hyn, ar y naill law, mae mewnfudo wedi bod yn rhan o fywyd Machynlleth a'r ardaloedd mwyn eraill ers tro byd ac, ar y llaw arall, mae'r mewnfudwyr yn magu iaith ac agweddu y gymuned leol, y mae pawb wedi chwilio am April, yn fewnfudwr a 'native', maent wedi ymuno i rannu baich.

Ond y drwg yw - heb wneud gormod o hyn - un peth yw'r mewnfudwyr sydd yn dewis dod atom i fyw. Mae'n wir na wyddom ddim amdanynt ac eithrio yr hyn a ddywedant ond y mae'r ffaith eu bod wedi dewis dod atom yn dweud rhywbeth amdanynt.Yr hyn sydd yn fater pryder yw'r rhai a ail leolir yn ein bröydd er mwyn rhoi cyfle iddynt dorri yn rhydd o gadwynau trosedd eu bywydau. Ni wyddom ddim am y rhain, na phwy ydynt na natur eu troseddau na baint ohonynt sydd. Ac efallai ei fod o yn bryd inni gael gwybod.

Lle mae llaw Duw yw cwestiwn rhai. Wel, mae Duw ar waith ym Machynlleth, ei waith Ef yw'r chwilio egnïol am y fechan a'r gofal a roddir i'w rhieni yn eu tristwch, tristwch na ellir ei ddychmygu ond sydd, mi dybiaf, bellach yn sur dan anobaith. Nid oedd Duw ynglŷn â'r penderfyniad i'w dwyn er bod ei dwyn yn dangos diffyg Duw. Mae Duw wedi rhoi i bob un ohonom rydd ewyllys fel y gallwn ddewis y da a gochel y drwg. Nid ydym bob amser yn llwyddo a dyna pryd y mae gennym angen edifarhad a maddeuant ond nid ar Dduw y mae'r bai fod pobl yn dewis y drwg. A mae hi yn hen bryd i unrhyw un oedd ynglŷn â diflaniad April ddewis y da a gadael inni wybod lle y mae hi, o leiaf.


Iestyn, Nannon, Alaw a Haf (yn y blaen) o Ysgol Sul Pen-llwyn lediodd yr emyn ' Cerddwn ymlaen' yn y gwasanaeth


Gwenan, Eleri ac Owain

**Geiriau** | byrlymus – vibrant | cydenwadol – interdenomenational | offrwm – offering

# Bugeilio'r Praidd


Llun: Hugh Jones

Capel Dewi ym 1991

O gofio y gall praidd olygu defaid neu bobl rwy'n cofio un o fugeiliaid Llanuwchllyn yn dweud wrthyf unwaith pan oeddwn gyda chriw mawr o gneifwyr gwellau yng Nghwmffynnon yng nghesail yr Aran, fod praidd pedair coes yn well na rhai dwygoes. Wedi imi ofyn pam, dyma'i ateb, "Dyde nhw ddim yn y'ch ateb chi 'nôl"! Un fu'n bugeilio defaid am bedair blynedd ar ddeg cyn bugeilio pobl am bedair blynedd a deugain oedd y Parchedig Dafydd Lewis, gweinidog Capel Dewi a Chapel Madog o 1900 i 1944.

Fe'i maged yn Llanarthne yn Nyffryn Tywi ac wedi rhoi'r gorau i amaethu dechreuodd bregethu yng Nghapel-y-ddôl yn y pentref. Mynychodd Ysgol Emlyn, Castellnewydd Emlyn (bu D.J.Evans, Capel Seion yno yn ddiweddarach), lle'r oedd John Phillips yn cyflawni gwyrthiau wrth hyfforddi gweision fferm a gweithwyr eraill. I Goleg Trefeca wedyn ac ar derfyn ei astudiaethau derbyniodd alwad i fugeilio pobl a phlant Dewi a Madog.

Roedd Dafydd Lewis ymhlith y criw o weinidogion yng ngogledd y sir a arhosodd yn yr un ofalaeth ar hyd blynyddoedd eu gweinidogaeth, rhai fel D.J.Evans, Capel Seion; D.H.Lloyd, Cwmystwyth (un o sir Gaerfyrddin fel Dafydd Lewis); O.H.Jones, Llanilar (brodor o Waunfawr, Arfon, a chyfaill oddi ar ei ddyddiau coleg yn Rhydychen, gyda T.H.Parry-Williams); W.Llewelyn Davies, Blaen-plwyf, a faged yng Nglandyfi; John Edwards, Tabor, Llangwyryfon; a D.Caron Jones, Soar, y Borth, a Babell, Dôl-y-bont, a wasanaethodd yno o



1894 hyd 1946 – 52 o flynyddoedd! Roedd Caron Jones a Dafydd Lewis yn gyfeillion oes a gan nad oedd Caron yn gyrru car Dafydd oedd ei sioffer. Clywais y gellid gweld y ffordd odanoch yn un o geir Dafydd ac ar ben hynny wedi i Caron ddod i'r car byddai'i gyfaill yn gorfod clymu'i ddrws gyda chortyn beindar. Roedd yn olygfa i ryfeddu ati gweld y ddau yn mynd drwy'r Borth a'r Ynys-las ac ymlaen hyd ffordd y figyn i Daliesin.

Roedd pobl Dewi a Madog yn meddwl y byd o'u bugail a drigai yn Nhroedrhiwlwyd hanner ffordd rhwng y ddau gapel ac am ei fod yn cadw ieir bu'n demtasiwn i rai ei alw'n Ddafydd chic-chic yn ôl y sôn. Fe'i disgrifir yng nghyfrifiad 1911, pan oedd yn byw yn Llain Arthur, fel 'Calvinistic Methodist Preashare (iaith fain dila'r cofnodwr!) ac yr oedd ei wraig ers naw mlynedd, Margaret Ellen, genedigol o Barsel Canol, bedair blynedd iau nag ef, a Jennie Gwladys Davies, nith wyth oed a aned yn Lambeth, Llundain, gydag ef.

Rwy'n cofio Dafydd Lewis yn pregethu yn Rehoboth, Taliesin, pan oeddwn yn grwt a dweud fod ganddo bedwar pen (nid y tri arferol) ac wedi anghofio'r pedwerydd mewn un capel gofynnodd am awgrym gan y blaenoriaid. Dyfynnodd un ohonyn nhw'r adnod, 'Gweddïwch yn ddi-baid'. A dyna'r geirie a ddefnyddiodd wedyn! Am ei fod yn fy nghofio'n dweud adnod yn Rehoboth roedd wrth ei fodd pan benderfynais fynd i'r weinidogaeth. Byddai'n dod i siop E.T.Lewis / Lampeter House ar ddydd Lun marchnad i orffwys yn y gadair wrth y cownter ac i fy nghynghori. Cynigiodd lyfrau imi a dweud y byddai'n bwysig i bobl fy ngofal maes o law weld fy mod yn ddarllenwr mawr!

Wedi colli'i briod ym 1953 bu'i chwaer yn gofalu amdano hyd y gallodd, ar ôl hynny bu raid iddo symud at berthnasau yn Llundain ym Mai 1959. Bu farw yn Ysbyty Sant Mihangel, Enfield ar y 15ed o Chwefror, 1961 yn 95 oed, a'i gladdu ym medd ei wraig ym mynwent Capel Madog. Ei olynydd yn y ddwy eglwys oedd un o feibion Corris Uchaf, y Parchedig Tom Cullum Lewis, brawd i Margaretta (Det) y gwasanaethais yn ei hangladd yn Nhachwedd 2006 a hithau'n 96 oed. Ar ôl tair blynedd symudodd Tom Cullum i Langynog lle bu farw'n ifanc. Fe'i holynwyd gan y gŵr a'm bedyddiodd ym Methlehem Cwmerfyn, y Parchedig D. Iorwerth Edwards, ac yn ei deyrnged i Ddafydd Lewis yn *Y Blwyddiadur*, dywedodd ei fod "... yn gymeriad diddorol a gwreiddiol iawn ac wrth ei fodd yn adrodd storiau am hynt a helynt ei gydefrydwyr a'i athrawon mewn ysgol a choleg. Perchid ef ymhell ac agos ar gyfrif ei sirioldeb a'i naturioldeb. Cyflawnodd lu o gymwynasau. Cefais lawer o'i gwmni y deng mlynedd diwethaf yng Nghapel Dewi mewn seiat a chyfarfod gweddi, ac yr oedd yn weddiwr mawr ac yn gwmnïwr diddan. Yr oedd hefyd yn bregethwr cymeradwy bob amser, gan roi lle teilwng i athrawiaethau mawr y Beibl".

*W..J. Edwards*

**Geiriau** gwellau – shears | drigai – reside | (g)ofalaeth – pastorate

# Seithenyn

Mae gan Iola Wyn ar ei rhaglen ddyddiol sbot pob bore Mercher 'Dysgu mwy am gân neu artist' a'r rhai gafodd y fraint o fod y cyntaf yn y gyfres fore Mercher 3 Hydref oedd Falyri Jenkins ac Eleri Roberts. Roedd y ddwy - ynghyd a'r diweddar Raymond Jones a John Watts-Williams yn aelodau o'r grŵp Seithenyn ac yn un o bedwar grŵp oedd wedi dod a record *Cwlwm 4* allan ar label Sain ym 1982. Y tri grŵp arall oedd Penderyn, Bwchadanas a Mabsant. Roedd Llio Penri, Llandre yn un o aelodau Bwchadanas.

Clywsom am gyfnod prysur yn hanes Seithenyn (a ffurfiwyd yn wreiddiol fel Tatws poeth) yn canu mewn gwestai, cymdeithasau, grwpiau dysgwyr, capeli a nosweithiau llawen. Roedd y grŵp yn trio cael amrywiaeth yn eu caneuon gyda rhai traddodiadol a rhai a gafwyd yn y Llyfrgell Genedlaethol lle gweithiai John ac Eleri. Un ohonynt oedd 'Siwrne'r cariwr' - o gyfrol Sarnicol *Cerddi Ysgol Llanycrwys* (Gomer, 1934). Ynddi clywn am siwrne David Griffiths, y cariwr, o fferm ei frodyr yn Nyffryn Aeron (lle 'roedd Talfan, Caericed a Thynycwm) i lawr trwy Drecastell a thros y Bannau i Dowlais Top (Merthyr).

Dacw fe'n mynd yn y bore bach
Yn y cart i Ferthyr tan ganu'n iach
O Dalfan, Caericed neu Dynycwm
A'i galon yn ysgawn a'i lwyth yn drwm.

Tatws Poeth oedd enw gwreiddiol y Grŵp, pan oedd Bethan Bryn yn aelod, wedi'i enwi ar ôl y noson o'r un enw ar gyfer ymwelwyr a gynhelid ym mar tanddaearol y Belle Vue yn ystod misoedd yr haf tua 1979. Newidiwyd yr enw i Seithenyn ym Medi 1980.




COFFI BOREUOL
BYRBRYDAU POETH NEU OER
CINIO
TE PRYNHAWN
CREFFTAU AC ANRHEGION

Pennau

Ar agor saith niwrnod yr wythnos Mehefin, Gorffennaf, Awst a Medi (fel arall, ar gau ar ddydd Llun)

Siop **Treasures**, Tlysau a gemwaith (yn cynnwys dylunwyr Cymreig), scarffiau a chyfwisgoedd priodasol.

Gwasanaeth enwai tai ar lechen a llwyau caru. Deunyddiau gwnio, yn cynnwys offer DMC, Anchor, Heritage, Derwentwater ac eraill.
Ffôn: 01970 820122

inc
**Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau,cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.**
**Croesawir archebion gan unigolion ac ysgolion**
**13 Stryd y Bont**
**Aberystwyth**
**01970 626200**



eich gwefan leol
www.trefeurig.org
your local website
newyddion etc. i / news etc. to:
golygydd@trefeurig.org
William Howells,
Rhyd-y-gof, Penrhyn-coch,
Aberystwyth SY23 3EQ

**Eirian Reynolds, Tech. S.P.**
**GWASANAETH IECHYD A DIOGELWCH**
AROLYGON DIOGELWCH
ASESIADAU PERYGLON
ARCHWILIADAU DAMWEINIAU
HYFFORDDIANT
GWASANAETH CYFLAWN I GADW CHI A'CH GWEITHLU YN DDIOGEL
01970 820124
07709 505741

**Iwan Jones**
Gwasanaethau Pensaerniol
Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau
Gellimanwydd, Talybont, Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com
01970 832760

GWASANAETH CYFIEITHU
**Linda Griffiths**
Maesmeurig
Cwmsymlog
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3EZ



01970 828454
lindagriffiths01@btinternet.com

**Gŵyl Cerdd Dant Ystrad Fflur 2013**
***17 Tachwedd***
Bwyd, adloniant ac ocsiwn
yng Ngwesty'r Marine, Aberystwyth
am 7.30
**Pris tocyn: £20**
**Ar gael gan Trefor Puw**
01974 272 214 **neu olygydd y Tincer**

# Ysgol Craig yr Wylfa

### Llwyddiant Pêl-droed

Llongyfarchiadau i dîm pêl-droed yr ysgol am ennill cystadleuaeth 5 bob-ochr yr Urdd yn Aberystwyth ddiwedd mis Medi. Pob lwc i'r bechgyn wrth iddynt gystadlu yn y rownd derfynol yn Llangrannog ym mis Tachwedd.

### Gwella amser chwarae

Ar ddechrau'r tymor, daeth cwmni i baentio marciau a gêmau newydd ar lawr iard yr ysgol. Y disgyblion fu'n dewis y gêmau a bu rhaid iddynt benderfynu, dewis a dethol eu hoff gêmau gan aros o fewn ffiniau cyllid. Talwyd am y gwaith o gronfa Peter Glover.

### Clybiau ar ôl ysgol

Rydym yn cynnal amryw o glybiau ar ôl ysgol yn ystod y flwyddyn er mwyn rhoi cyfleoedd a phrofiadau newydd i'r disgyblion yn ogystal â datblygu sgiliau sydd eisoes ganddynt. Mae'r clybiau yn boblogaidd iawn ac yn cynnwys plant o flynyddoedd 1-6. Anelwn at ddarparu'r cyfleoedd canlynol i'r disgyblion yn ystod y flwyddyn: Clwb Coginio, Clwb Chwaraeon, Clwb yr Urdd, Clwb Dawns, Clwb Garddio, Clwb Celf a Chrefft.

### Cyngor Ysgol

Mae "Criw'r Graig" sef Cyngor Ysgol Craig yr Wylfa yn cwrdd bob hanner tymor ac yn ôl y galw. Ceir etholiad pob blwyddyn er mwyn ethol y Cyngor Ysgol sy'n cynnwys aelodau o flwyddyn 2 i fyny. Maent yn bwriadu cynnal diwrnodau i godi arian ar gyfer prynu adnoddau amser chwarae i'r Ysgol a hefyd i elusennau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol. Cawn glywed pa syniadau cyffrous arall fydd ganddynt yn ystod y flwyddyn. Llongyfarchiadau mawr i'r disgyblion canlynol sydd wedi'u hethol i'r Cyngor Ysgol am 2012-2013: Blwyddyn 6: Dion Ellis-Clark a Natty Parton; Blwyddyn 5: Sam Davies ac Anna Williams; Blwyddyn 4: Joshua Williamson-Evans a Kelsey Hemmings; Blwyddyn3: Harvey Perkins, a Blwyddyn 2: Oliver Williams a Phoebe Hinks.













# Ysgol Pen-llwyn

### Mr Portillo

Cip sydyn a welwyd o Mr Portillo wrth iddo chwifio o gefn tren bach y Rheidol atom. Yn anffodus fe gollodd y cyfle o dderbyn ychydig a datw a llysiau! Mi oedd yn ffilmio rhaglen o'i gyfres ar deithiau tren ym Mhrydain.

### Mrs Emma Parr-Davies

Wrth i'r *Tincer* fynd i'r wasg mi ydym yn disgwyl am newyddion am fabi newydd yn Bow St i Emma a aeth ar gyfnod mamolaeth yn gynharach y tymor yma. Pob hwyl iddi hi a Neil.

Croeso i Mrs Ruth Lewis i Ysgol Pen-llwyn a fydd yn dysgu yn nosbarth 1 hyd nes y daw cyfnod mamolaeth Emma i ben.

### Sêr yr wythnos

Pob bore dydd Gwener yn ystod ein gwasanaeth boreol mi ydym yn rhoi gwobr 'Seren yr Wythnos' i ddau blentyn; un o ddosbarth un a'r llall o ddosbarth 2. Mae'r wobr yn cydnabod agwedd mae'r plentyn wedi 'disgleirio' ynddi yn ystod yr wythnos, fe all hyn fod am ymdrech o fewn y dosbarth neu am ymddygiad positif sydd wedi bod yn esiampl i eraill. Llongyfarchiadau i Sêr mis Medi sef......

### Clwb y Caban

Mae gan Ysgol Pen-llwyn glwb wedi ysgol newydd sbon. Wedi misoedd o baratoi trylwyr gan y pwyllgor fe lawnsiwyd Clwb y Caban ar Nos Lun Hydref 1af. Mae Aimie a Katie wedi eu cyflogi i redeg y clwb o 3.30pm i 5.30pm yn ddyddiol. Mae'n cwrdd yn y caban a ddylanwadodd ychydig ar yr enw!

Mae dau nod pendant i'r clwb wedi ysgol . Yn gyntaf mi fydd yn cynnig cyfleoedd i blant yr ysgol fwynhau amrywiaeth eang o weithgareddau a dan gyfarwyddyd Aimie a Katie yn ogystal ac oedolion eraill gydag arbenigedd. Fel enghraifft mae Mr Dewi Gwynne wedi cytuno i arwain cyfres o sesiynau rygbi yn wythnosol.

Ail nod y clwb yw cynnig gwasanaeth i rieni, oherwydd wahanol gyfrifoldebau, sydd eisiau gofal plant ar ôl ysgol am bris rhesymol.



Aimie a Katie gyda Osian a Owain, rhai o blant Clwb y Caban.




Rhai o sêr Ysgol Pen-llwyn. Rhes gefn o'r chwith -Megan, Craig, Morgan, Elfyn. Rhes flaen-Kenny, Ana a Nathan.

Mae'n dda cael y cyfle i ddiolch i Catherine, Jane a Ieuan, sef aelodau'r pwyllgor am eu gwaith a gwblhawyd cyn lawnsio'r clwb ynghyd â'r gwaith rheoli a fydd yn parhau. Mae'n bwysig cydnabod cyfraniad Sally Gillham hefyd sydd wedi cynnig cyngor a chefnogaeth trwy gydol y broses. Pob hwyl i Aimie a Katie a phawb sy'n ymwneud â'r clwb wrth i'r posiect ddatblygu.

**Geiriau** | **mamolaeth – maternity | agwedd – aspect | ddylanwadodd – influenced**

# Ysgol Penrhyn-coch

## Taith Tractor

Ar fore dydd Sul sych ym mis Medi, gwelwyd golygfa anhygoel ym maes parcio'r ysgol, sef 28 o dractorau. Daeth y criw ynghyd i godi arian i'r ysgol. Cyn y diwrnod, bu disgyblion a rhieni yr ysgol wrthi yn casglu noddwyr ar gyfer y daith. Cyn cychwyn ar eu taith, cafwyd brechdanau cig moch a phaned a drefnwyd gan rieni'r ysgol. Cafwyd stondin gacennau yno ynghyd a raffl. Erbyn iddynt ddychwelyd yn y prynhawn roedd y glaw wedi dychwelyd. Llwyddwyd i godi swm da i goffrau'r ysgol. Diolch i bawb a fu ynghlwm yn y fenter mewn unrhyw ffordd.






## Arad Goch

Bu cwmni theatr Arad Goch yn yr ysgol yn ystod y mis i berfformio "Ble mae'r Dail." Stori oedd hon am dymor yr Hydref. Bu'r disgyblion yn mwynhau y ddrama tu mewn a hefyd tu allan. Braf oedd croesawu Ysgol Pen-llwyn i'r ysgol. Cafwyd gweithdy gyda'r actorion fu'n actio yn y sioe gyda'r disgyblion wrth eu bodd.

## Clybiau

Mae'r clybiau wedi ail gychwyn ar ôl y gwyliau. Mae clybiau Celf a Chrefft, yr Urdd, hoci a gymnasteg yn cael eu cynnal yn wythnosol. Mae croeso i unrhyw un ddod i gynorthwyo yn y clybiau. Bydd disgwyl i unrhyw gynorthwy-ydd gwblhau gwiriad CRB yn unol â pholisi yr Awdurdod Addysg.

## Tacluso

Fel rhan o waith y tymor, aeth criw o ddisgyblion hŷn yr ysgol draw i'r parc i glirio sbwriel. Gwelwyd y disgyblion yn llenwi nifer dda o fagiau.

## Cyngherddau Nadolig

Cynhelir cyngherddau Nadolig yr ysgol yn Neuadd yr Ysgol ar y 4, 5 a'r 6ed o Ragfyr. Bydd y perfformiadau yn agored i bawb. Byddwn yn gwerthu rhaglenni yn ystod y bythefnos cyn y perfformiadau.

## Pen blwydd Arbennig

Braf oedd cael y cyfle i ddymuno pen blwydd hapus arbennig i Miss Cory yn ystod y mis!!

Ymhen blwyddyn byddwn yn dathlu pen blwydd arbennig arall sef pen blwydd yr ysgol yn 150 mlwydd oed. Er mwyn dathlu y pen blwydd mewn modd arbennig, rydym yn golygu trefnu cyfres o weithgareddau dros benwythnos ym mis Medi. Byddwn yn llunio pwyllgor i oruchwylio'r dathliadau a'r trefniadau. Gobeithiwn dynnu ar y Gymuned i fod yn rhan o'r trefniadau a'r dathliadau. Os hoffech gynorthwyo mewn unrhyw fodd, cysylltwch â'r ysgol. Byddwn yn trefnu cyfarfod yn fuan ym Mis Tachwedd i gychwyn ar y gwaith trefnu.

y tincer

Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

**DIGWYDDIADAU MORLAN:**

- Y Canpunt – cyflwyniad Cwmni Morlan o ddrama Kate Roberts (7.30, 20 Hydref & 7.00, 21 Hydref)
- C21 yn Morlan (7.30, 24 Hydref)
- Gŵyl Lyfrau Morlan (9-10 Tachwedd) – gydag Elystan Morgan, Jon Gower, Wiliam Owen Roberts ac eraill

Manylion llawn ar wefan Morlan:
www.morlan.org.uk

**CROESO CYNNES I BAWB!**

Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth SY23 2HH
01970-617996; morlan.aber@gmail.com

# Ysgol Rhydypennau

### Etholiadau

Bellach mae'r ysgol wedi cadarnhau, trwy bleidlais aelodau dau bwyllgor pwysig iawn; 'Y Cyngor Ysgol' a'r 'Pwyllgor Eco'. Mae aelodau'r ddau gyngor yn cwrdd yn rheolaidd er mwyn gwneud penderfyniadau pwysig a sicrhau llais swyddogol i weddill y disgyblion mewn amryw o agweddau ym mywyd yr ysgol.

### Adran yr Urdd

Mae Adran yr Urdd wedi ail ddechrau bellach. Bu plant blynyddoedd 4, 5 a 6 yn mwynhau taith gerdded o gwmpas Ty'n Rhos yn ystod y noson gyntaf dan arweiniad Mr Rees. Mi fydd y gweithgareddau difyr yn parhau yn ystod gweddill y flwyddyn.

### Ymweliadau

Fel rhan o thema'r tymor bu plant blynyddoedd 3 i 6 yn ymweld â fferm Cwmwythig, Capel Bangor. Yn ystod yr ymweliad fe welodd y plant system odro'r fferm yn gweithio, a sut oedd y fferm yn cael ei rhedeg o ddydd i ddydd. Cafodd y plant gyfle hefyd i holi Mr Evans nifer o gwestiynau penodol am y fferm a gofyn barn y gweithwyr am ffermio yn gyffredinol. Hoffai'r ysgol ddiolch i Mr Evans am y croeso a'r wybodaeth.

### Cynaeafu cynnyrch ein gardd

Dros dymor yr haf bu nifer o blant yn gofalu am gnydau'r ardd yn gyson. Erbyn hyn mae'r cnydau wedi cael eu defnyddio mewn amryw o ffyrdd; mewn cystadleuaeth arddio Sioe Rhydypennau yn ddiweddar, gwerthwyd tipyn o gynnyrch i rieni a ffrindiau'r ysgol cyn yr haf, ac yn awr mae gweddillion y cnydau'n cael eu defnyddio gan flwyddyn dau er mwyn creu siytni blasus.

### Gwasanaethau

Diolch yn fawr iawn i Mr Phil Davies o Dal-y-bont am ei gyfraniad diweddar i'n gwasanaeth. Dangosodd Mr Davies symbolau Heddwch y Byd i'r plant ac fe soniodd am bwysigrwydd ceisio sicrhau heddwch parhaus yn ein byd ni heddiw. Hefyd; y mae Y Parchedigion Richard Lewis, Andrew Lenny a Wyn Rh. Morris bellach wedi cyfrannu i wasanaethau boreol yr ysgol yn ystod y tymor hwn. Hoffai'r ysgol ddiolch yn fawr iawn iddynt am eu hamser a'u cyfraniadau gwerthfawr.

### Clwb Cant - canlyniad Hydref

| | | |
|---|---|---|
| 1af | £25 | Sioned Evans, Elgar |
| 2il | £15 | Sioned Evans, Uwch y Nant. Y Borth. |
| 3ydd | £10 | Huw Davies, Llety Ifan Hen, Bont-goch |



Cynaeafu'r ardd



Y Pwyllgor Eco - Yn sefyll o'r chwith-Safiya Jones, Catrin Manley, J.P.Smith, Ella Jones. Yn eistedd o'r chwith - Owen Drakeley, Owen Evans, Jamie Whitney, Elain Morgan, Nicholas Garrod, Sian Duckett.




Gerwyn Jones blwyddyn 2 yn cymysgu'r siytni



Y Cyngor Ysgol-Cefn o'r chwith-Ifan Clubb, Luke Taylor, Seth Lawton, Cai Powell. Blaen o'r chwith-Megan Glover, Ffion Duckett, Elan Griffiths, Mari Morgan

**Am fwy o wybodaeth cliciwch ar www.rhydypennau.ceredigion.sch.uk**

# Tasg y Tincer



Craig Edwards

Diolch i bawb fu'n lliwio'r llun o'r gwahanol fathau o adeiladau y mis diwethaf. Cefais lot fawr o hwyl wrth edrych arnyn nhw. Dyma pwy anfonodd lun ata i: Betsan Downes, Trefeurig; Elfie Everard-Walker, Y Borth; Elen Morgan, Bow Street; Craig Edwards, Capel Bangor; Garan ac Ela Thomas, Caerdydd; Seren Pugh, Bow Street; Gwion, Gruffudd a Morgan Ellis, Gwaelod -y-garth; Siôn Davies, Llangeitho, Carys Jones, Penrhyn-coch; Lois Medi, Llandre; Nia Gwenllian Clubb, Llandre; Elin Morgan, Llandre.

Roedd gwaith pawb yn ardderchog, wir, ond ti, Craig, sy'n cael y wobr y tro hwn – roedd pob adeilad yn llawn o liwiau diddorol. Da iawn ti!

Peth ydech chi'n ei hoffi am yr adeg hon o'r flwyddyn? Er bod noson Calan Gaeaf a noson Guto Ffowc yn gyffrous, dwi wrth fy modd yn cael crensian trwy'r dail sydd ar lawr, a'u cicio i'r awyr. Dwi hefyd yn hoffi casglu rhai ohonyn nhw a'u gludo ar ddarn o bapur, ond dwi'n gorfod edrych mewn llyfr neu ar y we er mwyn dod o hyd i'w henwau yn aml iawn. A fuoch chi'n dathlu diwrnod T. Llew Jones ar 11 Hydref yn eich ysgol, tybed? Fe ysgrifennodd T. Llew gerdd hyfryd o'r enw 'Dawns y Dail':

Fe waeddodd gwynt yr hydref,
Mae'n waeddwr heb ei ail,
"Dewch i sgwâr y pentre i gyd
I weled dawns y dail."

Y mis hwn, beth am liwio llun y wiwer? Mae'r wiwer yn anifail hynod o brysur yn ystod yr adeg hon o'r flwyddyn, yn hel cnau er mwyn eu storio; dyma fydd bwyd y wiwer dros fisoedd oera'r gaeaf pan nad oes yr un ddeilen na chneuen ar y coed. Ewch am dro yn ystod y mis i gasglu dail ac i weld pa mor brysur yw wiwerod ardal Y Tincer! Anfonwch eich gwaith at y cyfeiriad arferol, Tasg y Tincer, 46 Bryncastell, Bow Street, Ceredigion SY24 5DE erbyn Tachwedd 1af . a chofiwch nodi'ch oedran. Ta ta tan toc!



Enw

Cyfeiriad

Ysgol

Rhif ffôn — Oed


**M THOMAS**
Plymwr Lleol
Penrhyn-coch
Gosod gwres canolog
Ystafelloedd ymolchi
Cawodydd
Pob math o waith plymio
ac hefyd gwaith nwy
Prisiau rhesymol
07968 728470
01970 820375

**JONATHAN JAMES LEWIS**
Saer Coed
Adeiladydd
01970 880652
07773442260
Bronllys
Capel Bangor
Aberystwyth

**GOLCHDY LLANBADARN**
CYTUNDEB GOLCHI
GWASANAETH GOLCHI
DUFET MAWR
CITS CHWARAEON
FFÔN: 01970 612 459
MOB: 07967 235 687
GERAINT JAMES



ISSN 0963-925X
9 770963 925009

Rhif 352 | HYDREF 2012